






PRESENTED TO THE
LIBRARY BY:






TOMEN Y BAL, AC YSGOL TY TAN DOMEN.

"Mîl henflych iti, orhoffusaf dud,

Anwylach wyt nag unnan yn y byd."

SIARL WYN.



**Beirdd
y
Bala.**

O fryniau sir Feirionnydd—Athen dawn
A thywyn dysg gelyydd,
Bo gwawl o gwrr hay gilydd,
Nes in ddod o nos yn ddydd.
ERYRON GWYLLT WALIA.

LLANUWCHLLYN: AB OWEN

1911

ARGRAFFWYD I AH OWEN GAN R. E. JONES A'I FRODWR.
CONWY.

Rhagymadrodd.



ARDAL dawel, ac ardal lenyddol a darllengar, yw ardal y Bala. Saif y Bala ei hun ar gwrr dau blwyf, sef Llanfor a Llanecil. Ohoni, dros Lyn Tegid, gwelir dau blwyf arall, sef Llangower a Llanuwchllyn. Pumed plwy Penllyn yw Llandderfel. A'r Bala yw'r man cyfarfod

Yn y gyfrol hon, ni roddir gwaith beirdd yr ardaloedd cylchynol. Ni roddir gwaith beirdd Llandderfel, megis Bardd y Brenin, Huw Derfel, a Dewi Hafesb. Ni roddir dim o waith beirdd niterus Llanuwchllyn, megis Fychaniaid Caer Gai, Sion Dafydd Las, ac Ap Fychan. Cyfyngir y gyfrol i feirdd anwyd yn y Bala, fu'n byw ynddi, neu fyddent beunydd yn ei heolydd.

Y mae i'r Bala lawer o hanes. Y mae ei Llyn Tegid, meddir, yn cuddio tref hŷn, a foddwyd am ei phechod. Y mae amlder y blaenau saethau cerrig o'i chwmpas yn dwyn ar gof gyfnodau hela a rhyfela. Y mae ei Thomen, yn ol pob tebyg, er y cyfnod Rhufeinig o leiaf. Yn yr hen ramantau, cysylltir hi ag enw Goronwy Befr; ac y mae Aber Gwenwynfeirch Gwyddno, lle llws, teilwng le i bair Ceridwen, ar lan y llyn gerllaw. Yn oedd ynddi gastell yn amser y tywysogion; a chan ei hed yn sefyll ar derynau Gwynedd a Phowys, bu llawer o ymladd o'i hamgylch. Cafodd siarter gan yr Edwardiaid, ond mae'n debyg na fu erioed yn rhyw anibynnol

iv. Beirdd y Bala.

iawn ar y wlad oddiamgylch. Ynddi y cynhaliu'r goron *Court Leet* Penllyn. Yn amser gweu gartref yr oedd yn llynod am ei inarchnad hosanau, oherwydd eu gwعاد manwlesmwyth.

Ynglŷn a hanes meddwl Cymru, er hymny, y mae'r Bala enwocaf. Hi yw cartre'r Ysgol Sul. Ohoni hi y daeth syniad am Gymdeithas Beiblau i'r holl ddacar; un o'i beirdd hi oedd wedi dymuno "Beibl i bawb o bobl y byd." Bu ei Sasiynau'n gyrchtau Cymry am llynyddoedd lawer. Y mae'n gartref Cyfarfodydd Llenyddol er's cenedlaethau. Gwnaeth gwasg Saunderson ac ereill ohoni dilaioni i Gymru nas gellir ei fesur. Ac yn ddiweddarach, bu'n gartref i golegau dau o enwadau pwysicaf Cymru.

Yn y gyfrol hon ceir trem ar hanes meddwl y dref o ddechreu'r ddeunawfed ganrif ymlaen. Ym Morus ab Rhobert ceir adlais o'r Diwygiad Puritanaidd a chyfoeswyr Morgan Llwyd. Yn Rowland Huw a Robert William y Pandy ceir cyfuniad o effaith y Diwygiad Puritanaidd ar lenyddiaeth, oedd megis yn fore i ddydd o ddiwygiad Cymreig, ac effaith y deffroad Eisteddfodol ddaeth a'r mesurau caethion i fri newydd. Pan ddaeth y Diwygiad Methodistaidd, clywodd y Bala ei lais yn ei phregethwyr, Simon Lloyd a Dafydd Cadwaladr, ac yn ei gwehyddion William Jones a William Edwards. Ac yn y dyddiau hynny daeth Charles i'r Bala. Pan ddaeth y Deffroad Llenyddol, cynrychiolir ei wahanol gyfnodau gan Ioan Tegid, Siarl Wyn, Tegidon, a Roger Edwards. Mae beirdd eto yn y Bala.

OWEN M. EDWARDS.

Llanuwchllyn.

Cynhwysiad.

Pobl y Bala yn 1792.....7

MORRIS AB RHOBERT.—1723.
Cywydd Llyn Tegid 9

LAVN TEGID14
(Edward Samuel).

EISTEDDFOD Y BALA.—1738.
Annerch y Beirdd 15
Y Beirdd yn moli 17
Cannol y Bala 20

G. AB IEUAN.
Gaef ar y Berwya .. 23
Cywydd yr Haf 23

ELIN HUW.
Daw terfyn ar fy ngofid .. 24

ROWLAND HUW.—1714—1802.
Y Graienyn 25
Arwyrair yr Awen 27
Awdl y Ddannodd 34
Englynion y Maip 36
Ystyriaethau 37

RHOBERT WILLIAM.—1744—1815.
Y Beibl 40
Blinder ac Ymddiried 41
Yr Esgyrn Sychion .. 42
Cywydd y Farn 43
Englynion 48

CHARLES O'R BALA.—1755—1814.
Dyfais Fawr 49

DAFYDD CADWALADR.—1752
—1836.
Marwnad Charles o'r Bala 51

WILLIAM JONES.—1764—1822.
Cwymp Babilon 55
Y Gwlaw Graslawm .. 56
Llafur Enaid 56

WILLIAM EDWARDS.—1733—
1853.
Cysgod Ion 57
Awelon Ne 57
Iesu 58
Gobaith Scion 58
Yr Efengyl 59
Gweld Iesu 60
Aberth y Groes 60
Tyrfa Waredig 60

IOAN TEGID.—1792—1828.
Ymweliad y Bardd 61
Llyn Tegid 62, 72
Hiraeth Cymro 64
Marwnad Robert William 65
Ardebydd fy Mam 67
Merch Ieuanc 67
Cân i Gariad 68
Morwynion glân Meirion-
nydd 69
D. Silvan Evans 72
Ateb i Daniel Ddu .. 73
Yr Iaith Gymraeg 76
Ymladd Cressi 78
Amser 81
Dydd y Farn Fawr .. 82
Galar y Bardd 83

SIARL WYN.—1819—1832.

Ioan Tegid	85
Ysgol Rad y Bala ..	87
Bedd John Evans	88
Hiraeth	90
Doli	90
Tŷ fy Nhad	90
Gadael Gwiad	92

TEGIDON.—1810—1877.

Siarl Wyn	93
Sul yn y Bala	95
Dinistr Cartref	96
Heddwch fel yr Afon ..	97

JOHN PAGE.—1832—1852.

Wedi'r Cwmp	99
-------------------	----

ROGER EDWARDS—1811—1886.

Yr Afonig	101
Yr Asyn Anfoddog ..	103

IOAN PEDR.—1833—1877.

Dacareg	105
---------------	-----

MYFYRWYR Y BALA.

Prydnawn Sadwrn yn y Bala (Glan Alun)	106
Green y Bala (Huw Myfyr)	109

Darluniau gan y diweddar John Thomas.



POBL Y BALA YN 1792.

CEIR rhestr o brif drigolion y Bala yn yr
 "Universal British Directory of Trade, Com-
 merce, and Manufacture" am 1792.

Yn y gwahanol lyfrau teithwyr, gelwir sylw at ei
 Thomen, at y coed sydd ar ochreu ei stryd, at ei
 hen freintiau a'i Hysgol Rad, at y gwyniad yn y
 Llyn, ac at ei marchnadoedd hosanau a menyg
 gwlan.

Yn 1792 y prif foneddigion enwir fel rhai a char-
 trefi yn ei hymyl oedd Syr W. W. Wynn yng
 Nglan Llyn a Chaer Gai; Richard Tav. Price yn
 y Rhiwlas, a William Dolben yn Rhiwedog. A
 dyma'r lleill,—

CLERGY.

Anwyl Rev. Rice, *Rector of
 Llanyckil*
 Charles Rev. Mr. *Methodist
 Preacher*
 Lloyd Rev. Simon (F.)
 Thomas Rev. Mr. *Dissenting
 Minister*

PHYSIC.

Evans Evan, *Surgeon*
 Hughes ———, *Surgeon and
 Apothecary*
 Lancaster Dr. *Inoculator of
 Small-Pox*

LAW.

Pierce J. *Attorney*
 Rowland David, *Recorder*
 TRADERS, &c.

Cartwright John, *Victualler*
 Charles ———, *Grocer, &c*
 Davies Thomas (F.) *Victualler
 (Swan)*
 Davies Morris, *Grocer, &c.*
 Davies John, *Sauller*
 Davies Ellis, (F.) *Farmer*

Davies Gabriel, *Grocer, &c.*

Eaglas Ellis, *Victualler (Prin-
 cipal Inn)*

Edwards Roger, *Baker*

Edwards David, *Joiner*

Edwards Richard, *Grocer*

Edwards Humph. *Tiŵman and
 Glasier*

Edwards Robert, *Peruke-maker*

Evans Peter, *Farmer and Vic-
 tualler*

Evans John, *Chandler*

Evans John, *Baker and Weaver*

Hughes Hugh

Hughes John, *Victualler*

Isaac Thomas, *Shoe-maker*

Jones Robert, *Glover*

Jones William, *Smith*

Jones Hugh, *Victualler*

Jones Lewis, *Taylor*

Jones Robert, *Glover*

Jones David, *Master of the
 Free School*

Jones Evan, *Shopkeeper*

Jones Griffith, *Smith*

viii. Pobl y Bala yn 1792.

Jones Moses, <i>Smith</i>	Lloyd Robert, <i>Skinner</i>
Jones J. <i>Schoolmaster</i>	Lloyd William, <i>Butcher</i>
Jones J. <i>Grocer, &c.</i>	Morris William, <i>Peruke-maker</i>
Jones Eleanor, <i>Victualler</i>	Morris Robert, <i>Baker</i>
Jones David, <i>Gardener</i>	Owen Thomas, <i>Peruke-maker</i>
Jones Margaret, <i>Gardener</i>	Owen Thomas, <i>Cooper</i>
Jones John, <i>Baker</i>	Owen Richard, <i>Shoe-maker</i>
Jones Richard, <i>Chester Carrier</i>	Owen James, <i>Carrier</i>
Jones Hugh, <i>Victualler and</i>	Owens —, <i>Grocer, &c.</i>
<i>Glazier</i>	Prichard David, <i>Cordwainer</i>
Jones Thomas, <i>Skinner</i>	Randles —, <i>Victualler (White</i>
Jones Evan, <i>Skinner and</i>	<i>Lion)</i>
<i>Glover</i>	Richards Anne, <i>Victualler</i>
Jones Hugh, <i>Sadler</i>	Robert John, <i>Victualler</i>
Jones Robert, <i>Glover</i>	Robert Hugh, <i>Taylor</i>
Jones Evan, <i>Web-merchant</i>	Robert Edward, <i>Turner and</i>
Jones William, <i>Victualler</i>	<i>Victualler</i>
Jones Edward, <i>Shoe-maker</i>	Roberts Henry, <i>Tanner</i>
Jones Rowland, <i>Cooper</i>	Roberts Edward, <i>Butcher</i>
Jones J. <i>Postmaster and Far-</i>	Roberts Griffith, <i>Victualler</i>
<i>mer</i>	Rowland David, <i>Shoe-maker</i>
Lloyd Robert, <i>Corn-dealer</i>	Williams James, <i>Tinman and</i>
Lloyd David, <i>Slater</i>	<i>Glazier</i>







POST MWSWGL Y LLYN.

Gwynt de orllewin yn gyrru'r tonnau.

"Tra mawr la yn tramwy'r lan."

MORUS AB RHOBERT.



BEIRDD Y BALA.

LLYN TEGID.*

Maint Llyn Tegid.

MYFI ar lan hafan hir
Dŵr rhyfedd, diau rhifir
Tair milldir o dir da,
Wych iawn fodd, o'i gychwnfa
'R hyd aber, rwy'n rhyw dybied,
A milldir a lwfir o led.

Tonnau'r Lan.

Daethum, wrth ryw ymdeithio
Ar ddrycin, i'w fin fo ;
Gwelwn donn, geulan dene,
Yn troi i'r lan tan oer le ;
A thonn o'i hol, ffrwythol ffres,
Ar ddwad i'w gorddiwes ;
A'r drydedd oedd, floedd fin
Nod alaith, yno i'w dilin ;
Bob yn un, bu boen anian,
Tra mawr lu, yn tramwy i'r lan ;

* Ar ddechreu'r ddeunawfed ganrif yr oedd y saer crefyddol a llangarol Morris ab Rhobert yn cynrychioli yn y Bala deimladau y Diwygiad Puritanaidd, i ddeffro drachefn, wedi ei farw ef yn 1723, gyda'r diwygwyr Methodistaidd,—ei fab-yng-nghyfraith John Evans, &c. Gweler ychwaneg o'i waith yng nghyfrol *Beirdd y Beirdd*. Ni pheidiodd ei ddylanwad dwys ar feirdd y Bala, y maent bron oll wedi ys-grifennu peth o'i waith yn eu llyfrau.

Pan elai, mewn poen cilwaith,
 Dau naw mil o donnau maith ;
 'Roedd rhyfedd arwydd rhyflawr
 Yr ugain mwy o'r eigion mawr.

Y donn olaf.

Tair ias drom, teriais dro
 Yn hwyr iawn yn hir yno
 I weled gwedd a diwedd da,
 Weithian, y donn ddiwaetha ;
 Tariwn i hyd hwyr nos
 O'i herwydd yno i'w haros ;
 Nid oedd, orfaith helaeth hynt,
 Ddu ddyrnod, ddiwedd arnynt.

Llyn Arall.

Ag ar hyn o gywir hanes,
 Cysfusedra ag odfa a ges
 I fyfyrto, tro trwch,
 Dyddie'r annedwyddwch
 A geiff y dyn cyndyn cas,
 A soddwyd gyda Suddas.

Dull y llyn hanner.

Gwylwn byth, gwae el o'r byd,
 I ddalfa tragwyddolfyd
 Lle mae'r boen, llwm arw bant,
 Archoll gwŷn, erchyll geunant ;
 Llyn du o dân, llanw di-dorr,
 Gwae gan dyn y gagendor ;
 Llwy'r wael fodd, lle'r ail fyd,
 Llithrigfa llwyth o ddrygfyd ;
 Pwll y diawlled, pell y delom,
 Bob un draw o'i boen drom ;
 Pair o dân, pwy red yno,
 Dan y gwae, ond dyn o'i go ?

Gwae a redifi, garw ydyw,
 I gefn tân digofaint Duw ;
 Wylofain, llelain hyll wedd,
 Rhwnc yn dynn, rhincian dannedd ;
 Oerfel trwm ar fil tru,
 A rhew anwyd i'w rhynnu ;
 A gwres byth, lle cras boethan,
 Uthrol a dicithrol dân ;
 A'u dwylaw a'u traed, dial trwm,
 Yno i'w cael yn un cwlwm ;
 Mewn tân, brwmstan, a braw,
 Cythrenliaid yn caeth riwliaw ;
 Yn suddo'n syth byth tra bôn,
 Dyna fisdifi, dan y taesdon ;
 Heb liw dydd, heb le diddan,
 Heb lawnt teg, heb wely ond tân ;
 Heb loer, heb ddŵr oer, aruth',
 Heb ōrwyth o'd funud fyth.

Galar y Llyn Tân.

Wylant hwy fwy na môr,
 A'u llyged fel hyll ogor,
 Yn hidlo dagre'n hedli,
 Tragwyddol a greddfol gri
 Enaid a chorfi heb orflwys,
 A'u barn fydd arnynt yn bwys.

"Byth" a Chydwybod.

Ond dau beth, i'm tyb i,
 Swyddde pen, sydd i'm poeni,—
 Y gair "Byth," gwae oer 'u bod,
 Och didwyll, a Chydwybod.
 Gofynnant, yn gyfan gaeth,
 I Gydwybod mawr nod-maeth,—

" Ai byth y rhoddwyd ein barn
 O cywir gadael cwyn gadarn?"
 Cydwybod fel mil yn ddilyth,
 Ddiwid boen, a ddywed " Byth."
 " Ti wyt yn siwr yn datsain
 Crug lef fel carreg lefain ;
 Cwyno raid mai enei'r ydwyt,
 Cry fwystfil di-eiddil wyt,
 Blaenllym llais, yn llawn dig,
 Blin wæw heb le i'w newid,
 Na gobaith, Duw sy'n gwybod,
 Draw er hyn droi y rhod."
 " Gweli yn hir, galon haearn,
 Odfa ferr wedi'r farn,
 Munudie fel dyddie ar donn,
 Ag orie fel misoedd geirwon,
 A phob mis, gwyddis ar goedd,
 Elin addfed, fel blynyddoedd,
 A blynyddoedd fel oesoedd ysig
 Dan wialen Duw yn llawn dig,
 Ag oesoedd yn filoedd a fâi,
 A'u tyniad fel y tonnau ;
 Godde'n dynn, gweiddi'n dost.
 Melldithio'r man lle daethost ;
 Rhegi'r dydd, oer ludd, ar led,
 A'th einioes gynta i'th aned ;
 Rhegi'th fam, rhy gaeth fodd,
 Was gerwin, a'th esgorodd ;
 Créu am angeu tene tau,
 Er dibenu dy boenau ;
 Ni wna Ange a'i gledde glas
 Gam yno o gymwynas ;
 Ond byw sydd raid, fy enaid, fyth,
 Distyrrweh sy dost aruth ;

Angylion, a dynion da,
 A'th Dduw wedi, a'th wawdia
 Am wrthod dydd rhydd rhad
 Ii drugaredd a'i gariad."

Ape! y Bardd.

Clyw, ddyn, rhag cwilydd wyneb,
 Weithian wyt waeth na neb;
 Ai carreg dan freudeg fron,
 Dew galed, yw dy galon?
 Ai cyfi o bren, colta heb raid,
 Plwm dinerth, ple mae d' enaid?
 Ai 'nifel gwâr isel gresyn,
 Arwydd dost, ar wedd dyn?
 Ystyria yn awr, os dyn wyd,
 A dewis yn fwy diwyd;
 Oina'r boen yn fawr byth,
 Uffern erwin a'r ffwrn aruth';
 Ofna Dduw yn fwy, O ddyn,
 A dechre cyn amser dychryn;
 Gwylia ymroi, galw am ras,
 Cei feddyg fo cyladdas;
 Rhed ato, mae'n rhaid iti,
 Galw'n llyn, ag wyla'n lli;
 A dwed,— "Arglwydd rhwydd rhoddfawr,
 O madde i mi 'meic mawr;
 Clyw weithian un cla athrist
 Yma yn crêu, er mwyn Crist,
 Am f'achub o'm haflan fuchedd
 Cyn y bwy acw'n y bedd;
 Na ollwng fi o'th law allan
 I uffern dost a'r ffwrn dân."

MORRIS AP RHOBERT a'i Cant.

LLYN TEGID.

DE buasai'r Llyn goleuwyn gynt
 Yn gwrw bir uwch gwarr y Bont ;
 Y beirdd heirdd dibrudd eu hynt
 Hyfoesawl a'i hyfasant.

Mawr y drwg mac'r darogan—helbulus*
 Am y Bala druan ;
 Y daw'r môr drwy y Marian,
 A'i ddwr fyth i foddî'r fann.

Gwrandewch o mynnwch i mi—rhag angen
 Roi rhyw gyngor ichwi,
 I gadw hon, Duw gyda hi,
 Rhag diliw rhawg i'w delwi.

Gwna'r Llyn yn gerwyn i gyd,—a berw
 A bwrw frâg hetyd,
 A galw'r beirdd gloewa o'r byd
 Ddewis budd i'w ddisbyddu.

Y gwŷr hyn sy gywreiniach—na Dewi
 Os deuant i gyfeddach ;
 Ar ei lann pa rai lonnach,
 Mi a wranta 'r Bala bach.

EDWARD SAMUEL.†

* Dywedir fod yr hen Fala dan Llyn Tegid, ac y clywir swm y clychau'n dod drwy'r tonnau. Mae hen ddarogan hetyd y daw'r llyn dros y dref eto.

" Y Bala aeth, a'r Bala aiff,
 A Llanfor aiff yn llyn."

† Gwelodd Edward Samuel (1674—1748) Llyn Tegid aml dro, mac'n ddiameu, pan yn herson yn Metws Gwerfil Goch a Llangar. Cetais yr englynion hyn gan Myrddin Fardd.

EISTEDDFOD Y BALA *

Dydd Llun y Sulwyn, 1738.

i. ANNERCH Y BEIRDD.

MR. EDWARD WYNNE a'i Cant.

HARRI PARRI.

SHARRI fab Harri, purion—yw d'odlan,
 Didlawd gynganeddion;
 Dealldwrus, gweddus, gwyddon,
 Am seiniad a llusgiad llon.

ROWLAND O'R PANDY.

Rowland Sion dirion d'araith—da gwn i
 Dy ganiad sydd berffaith;
 Mwyn y medri mewn mydrwaith
 Iawn hwylio ac eilio gwaith.

JOHN JONES, LLANFAIR.

Sion ab Sion, heb ddim swm,—mae'n brydydd
 Bwriadol digwestiwn;
 Ag undyn ar y gwndwn
 Yn dra hardd fo dreia hwn.

DAFYDD IFAN HYNAF.

Dafydd, da 'wenydd ei waith—a doethedd
 Hyd eitha prydyddiaeth,
 Pur eiriau, pŵr yr araith
 A pher iawn i'w phurion iaith.

* Codwyd yr englynion hyn o fysg lliaws o rai eraill yn llyfr ysgrif J. Lloyd, twrne llengarol o'r Bala. Rhoddir hwy yma i ddangos beth ganai beirdd Eisteddfod pan oedd Goronwy Owen yn llanc un ar bymtheg oed.

16 1519 Beirdd y Bala.

GWILYM AB IORWERTH, LLANFOR.

Cynghanedd dda sylwedd, nid sal,—hoddyw
Nid hawdd gael ei gystal,
Na'i thebig, mac'n waith abal,
Llwyra deyd, llawer a dal.

ELIS CADWALADR.

Cynghanedd groewedd bob gris,—a geiriau
Rhagorol i'w dewis;
Pe'i chwiliach, ni fynnech, sis,
I'm bryd, ail i'm brawd Elis.

Athronddysg gronddysg gywreinddoeth,—
[Meirionddysg

Gyflonddysg gyflawnddoeth;
Nid gwirionddysg, gŵr iawnddoeth,
Tirionddysg, llonddysg, llawnddoeth.

DAFYDD AB IFAN IEUENGAF.

D. ab Ifan fwymlan fant,—y prydydd
Pur odl di-fethiant,
A geiriau da, mac gwarant
Da iawn ei go, dyn o gant.

SIAN ACH IFAN.

Canmoliaeth i'r eneth a ro—beunydd,
Eble bynnag yr elo;
A llwyddiant i'w holl eiddo.
Dedwydd fyd yn y byd tra bo.

Y BEIRDD OLL.

Diolchaf a chanaf i chwi—trwy gilydd
Tro i galon ddiwégi;
Fe ddaw inni ddaioni
Byth yn Nuw tra bytho ni.

16 1519 Beirdd y Bala.

GWILYM AB IORWERTH, LLANFOR.

Cynghanedd dda sylwedd, nid sal,—hoddyw
Nid hawdd gael ei gystal,
Na'i thebig, mac'n waith abal,
Llwyra deyd, llawer a dal.

ELIS CADWALADR.

Cynghanedd groewedd bob gris,—a geiriau
Rhagorol i'w dewis;
Pe'i chwiliach, ni fynnech, sis,
I'm bryd, ail i'm brawd Elis.

Athronddysg gronddysg gywreinddoeth,—
[Meirionddysg

Gyflonddysg gyflawnddoeth;
Nid gwirionddysg, gŵr iawnddoeth,
Tirionddysg, llonddysg, llawnddoeth.

DAFYDD AB IFAN IEUENGAF.


D. ab Ifan fwymlan fant,—y prydydd
Pur odl di-fethiant,
A geiriau da, mac gwarant
Da iawn ei go, dyn o gant.

SIAN ACH IFAN.

Canmoliaeth i'r eneth a ro—beunydd,
Eble bynnag yr elo;
A llwyddiant i'w holl eiddo.
Dedwydd fyd yn y byd tra bo.

Y BEIRDD OLL.

Diolchaf a chanaf i chwi—trwy gilydd
Tro i galon ddiwegi;
Fe ddaw inni ddaioni
Byth yn Nuw tra bytho ni.



STRYD FAWR Y BALA.

"Tre'r Bala, llonna llannerch,—tre oediog.
Tre oediath ei thraserch." EDWARD JONES, Bouffari. 1738.

Eisteddfod 1738. 17

ii. Y BEIRDD YN MOLI.

I MR. EDWARD WYNNE.

Pen hugel Duw Daniel, dad union—yw Wynn
Ddiwenieth ei foddion ;
Oleu ciriau, ail i Aaron,
A'i sylwedd mae fel Solomon.

I JOHN LLWYD RHIWEDOG.

Pen siri inni, enwog,—oes gywir,
Yw sgwiar Fachddeiliog,
A gwir aer i'r glaer aur glog,
Rhi odieth, a Rhiwedog.

EDWARD JONES, Bodflari.

Perl pur lle ei adwacnir, Llwyd enwog,—
Pen siri galluog ; [pacn siriol,
Wr ara glân, aur ar ei glog,
Yw'r aer odiaeth o Riwedog.

DAVID EVANS.

Pedwerydd John, llon ddull enwog,—o wtes
Acr stad Riwedog ; [dawn,
Tri eryr natur eurog,
Siwra glain, sydd ar ei glog.

ELLIS CADWALADR.

I SYR WATKIN WILLIAMS WYNN.

At Watcin, brigin ein bro,—glau wyneb,
A'r glana o Gymro ;
Ceidwad gwyh gwlad, a'i chlo,
Deg hyder, Duw a'i cadwo.

ELLIS CADWALADR.

At iechyd hyfryd hwn,—Watcyn
Yw utgorn, debygwn ;

18 Beirdd y Bala.

Di-faswedd a da ei fosiwn,
O gariad mewn tyniad twm.

SIAN EVANS.

I JOHN MORGAN.

Cydfolwn, canwn er cynnydd,—i Sion,
A seiniwn fawl newydd ;
Paen parodwych, pen prydydd.
Gwir aer ffel o'r gywir ffydd.

GWILYM AB IORWERTH.

I SIAN EVANS.

Croeso, Sian, hoewlan hawl,—aur belydr,
I'r Bala le grasawl ;
Sian wyr maeth synwyr mawl,
Sian Evans, dwysen nefawl.

ELLIS CADWALADR.

SIAN LAURENCE.

Sian, loer oleulan, liw'r lili,—dwysen,
Dewisol ei chwmmi ;
Mwyna dynes mewn daioni,
Fel y glain hardd, glân yw hi.

HARRI PARRI.

I WILLIAM PRICE Y RHIWLAS.

Yn Rhiwlas mae gras yn gry—i'r Preisiaid,
Pur rasol drwy Gymru ;
Mac'r faenol yn dal i fyny,
Drwy wyrthiau da call un Duw cu.

JOHN JONES, Llanfair.

Mr. Price mewn dyfais da,—o'r Rhiwlas,
Rheolwr mwynceidd-dra ;
Mewn awch cu melus mi'ch camola,
Naws heno heb gudd os hynny a ga.

CORBED OWEN.

Aer Rhiw Saeson, lon Iwyn,—sy gynnes,
 Ac Ynys y Maengwyn;
 Rhod Duw Tad, dygiad digwyn,
 Lân acres i'w fynwes fwyn.

Mae'n barchus weddus wawr,—byw les,
 Gyda'i blasau gwerthfawr;
 Megis angel hyd clawr,
 Perl mwyn sir Drefaldwyn Fawr.

ELLIS CADWALADR.

I'R GWIN COCH.

Potel gron wiwlon a welaf,—ar y bwrdd
 Rhwng y beirdd mwynceiddiaf;
 Y gwin coch, gwn o caf,
 Fwya gwir, ef a garaf.

GWILYM AB IORWERTH.

APEL DDIFRI.

Beirddion dyfnion, nad ofnwch—mo'r canu,
 Mêr cynnydd diddanwch;
 Mewn synwyr y mwyn seiniwch,
 Ow, un fflam o awen fflwch.

Nid mawl dethawl a doethedd—i ddynion,
 O ddeunydd anwiredd;
 Ond mawr-glod, trwy wiw-nod wedd,
 I Dduw a'r Oen o ddewr rinwedd.

ROBERT LEWIS.

CYDYMDEINLAD.

Bardd hwylus, ddawnus ei ddydd,—wyt,
 At hybarch awenydd; [Robert,
 Nid ofer onid Dafydd,
 A genyf fi, egwan fydd.

DAVID JONES o Drefriw.

GWAHODDIAD.

Dowch, Dafydd, gelyydd galon,—a Robert
Oreubarch o foddion ;
I dy'r sir, difur dôn,
Bryd addas at brydyddion.

ELLIS CADWALADR.

I ELLIS CADWALADR.

Llawen dda awen ddiwair—wna i Ellis
Iawn cilio dewisair ;
A chelyyddyd, groew-bryd grair,
Gorau i gyd gŵr y gadair.

EDWARD WYNNE.

iii. CANMOL Y BALA A LLYN TEGID.

Tre'r Bala, honna llannerch,—tre oediog.
Tre odiaeth ei thraserch ;
Tre hynod, tro i'w hannerch,
Trwy ciriau sain troiau serch.

Dwy fflynnog digon degwawr,—daith cydwedd,
Daeth cydiad ffrwyth dirfawr ;
Dewr ennwyd y dŵr unwawr,
Difri da fodd, Dyfrdwy fawr.

I Benllyn, irwyn oror,—y rhediff
I'r rhydau sy ym Maclor ;
Gyrr longau i Gaer le angor,
Oddiyno mae ei ddwy'n y môr.

EDWARD JONES, Bodffari.

Tre farchnad y wlad loewdeg,—tre'r Brynllysg
A Bronllwyn eglurdeg ;
Tre'r Bala i dyrfa deg,
Tre'r llwyn gwawd, tre'r llyn gwiwdeg.

ELLIS CADWALADR.

Eisteddfod 1738. 21

Dwy ffynnon ddyfnion ddiolfnwaith,—radol,
 A redan ar unwaith ;
 Ac i'w galwyd, deg cilwaith,
 Dwfwr dwy, diofer daith.*

ROWLAND SION o'r Pandy.

Serchog ddyfrog ddaufryn—llawn tegwch,
 Llyn Tegid, gyferbyn ;
 Rhwyddgar le'r hawddgar lyn,
 Mewn mur panlle mae môr Penllyn.

DAVID EVANS.

Tre'r Bala brofia ger bron,—tre gannaid,
 Trwy gynnal prydyddion ;
 Tref enwog tyrfa union,
 Mynwes aur am hyn o son.

Tre Rhirid ddilid dda lon,—Flaidd arglwydd,
 Floedd eurglod ei ddwyfron ;
 Gwyrdd arail i gerddorion,
 Iraidd gre ar ddaear gron.

Tre Degid enwid union—gardd ganu,
 Gerdd Gwynedd, gymdeithion ;
 Y gân irwydd, gain aeron,
 Swydd iawn hedd, sy heddyw'n hon.

Tre Benllyn, gwiwlan galon,—ardderchog
 Urdd archiad brodorion,
 Rhagorol dan y goron
 I hulo cerdd Helicon.

Tre Uwchlyn gyfun gofion,—o bur ddawn
 Aber-ddysg athrawon,

* Cyfeiria'r beirdd at gam esboniad ar y gair Dyfrdwy. sef "dwfr dwy," o herwydd ei bod yn tarddu o ddwy ffynnon ar y Garneddwen. Ond "dwfr dwyf," sef dwfr dwyfol, yw'r gwir ystyr. Addolid yr afon hon gynt.

Hoffeiddlwys, hy, a ffyddlon,
Oreuliw bryd ar ael bron.

Tre Ycil, beryl burion,—fan werthfawr,
Fwyn o wyrthiau mawrion ;
I'w phennu yn hoew ffynnon,
O rad y ffydd eurað ffon.

Tre Gywer dyner, dynion—a'i galwant,
Galant yw, a thirion ;
Trefnus wastad ty weston,
Am eiliad aur mal had onn.

Tre Lanfor agor eigion—dysgeidiaeth,
Dwys gadarn merthyrion ;
Yngolwg lleng o angylion
Mwy'n ne'n wïw mae nhw yn lon.

Tre Dderfel dawe! Deon—Edmwnd Prys
Diamond prif wir Gristion,
Gorchwyl Duw, gorchel dôn,
Fryd arwydd, frawd i Aron.

Tre dramwy Dyfrdwy deifrdon,—rhedegog
Rhyd ogwydd Caerlleon ;
Man dethol am win doethion,
Gwawr ebrwydd i gaer Ebron.

Tre weddedd lawredd Feirion—sir odieth,
Siwr ydyw, disgyblion ;
Caer degwych caredigion,
Bair addysg o Beryddonf.

Tre Eisteddfod hynod hinon,—mwy hylwydd,
Mi alwaf hi Banon ;
Bun Gwynedd yn ben ganon,
Modd dyb sydd, medd D. ab Sion.

G. AB IEUAN.

[Dyma ddarnau o un o ysgriflyrau Rowland Huw. Ysgrif-
enwyd ar ddiwedd Cywydd yr Haf—"G. ab Ieuan. Bala,
a'i cant; yr unfed flwyddyn ar bymtheg o'i oedran"]

I. GAFAF AR Y BERWYN.

A BERWYN, glaerwyn ei glog—gan eira
Gwyn oer, mac'n afrywiog;
Helaeth, heb fawr le haulog,
Na chân gan eos na chog.
Llydan yw'r mynydd lledoer—maith unig,
Amwyth iawn a phuroer;
Nid rhywiog ennyd rhew-oer,
Bwrw niwl ar y Berwyn oer.
Oer ddwl oedd niswl; nos,—a minnau
Am ennyd o ddiddos;
Ger iawn wg eira'n agos,
A rhew ar lynydd a rhos.

II. DIWEDD CYWYDD YR HAF.

Er bod rhai am y gafaf,
Minnau o hyd mynna haf;
Am y gwanwyn mi gwynai
Er hwn daw'n fuan yr haf;
Duw, am hynny dymunaf
Yma o hyd imi haf;
Duw, it geinwych datganaf
Gerdd hyfryd ar hyd yr haf;
A melus dant y molaf
Yr Hwn sy'n rheoli'r haf;
A thant a nabl parablaf
I'r Hwn sy'n golcuo'r haf;
Cynnes i Dduw y canaf
Os rhydd i'm Iesu, a'r haf.

ELIN HUW.

[Cyfansoddwyd y ddau bennill hyn gan Elin Huw, chwaer Rowland Huw o'r Graienyn, ar ddiwedd dwy flyned o afiechyd, Rhag. 31, 1762.]

I.

DAW terfyn ar fy ngoŷid,
 Cai fynd yn gonerwr llawn,
 Waith Iesu ar Galfaria,
 Fu'n talu troswy 'r iawn;
 Er teimlo ynw i luoedd
 O bob rhyw lygredd llym,
 Mi gana i dragwyddoldeb
 Er pechod mawr ei rym.

II.

Er bod gofidiau yma,
 A'r ton,au mawr eu stwr,
 Yn rhoddi f'enaid egwan
 Yn fynych tan y dŵr;
 Er maint yw rhwydaŷ Satan,
 A'i saethau mawr eu lliid,
 Cai lechu yn myrwes Iesu
 Tra byddwyf yn y byd.



ROWLAND HUW Y GRAIENYN.

[Ganwyd Rowland Huw yn 1714. Amaethai'r Graienyn, ar y llethr ar ochr Llangower i'r llyn. Yr oedd yn ystiward helyd i'r Fach Ddeiliog a Rhiwedog. Yr oedd yn enwog ymysg llenorion ei oes, yn athro i feirdd ardaloedd y Bala, ac yn gasglydd llawer o brydyddiaeth ei oes. Aeth Robert Saunderson a rhai o'i ysgrif-lyfrau i'r Amerig tuag 1850, ac wedi boldi hwnw yn afon Alabama, collwyd rhai o'r ysgrif-lyfrau drwy dân. Ond y mae llawer iawn o'i waith yn aros eto. Claddwyd ef yn Llangower, ochr y llyn i'r eglwys, Rhag. 16, 1802. Gwel *Cymru* l., 108—197. Anfonodd rhyw fardd yr englynion hyn iddo,—

Ilyn sydd, mwyn brydydd mewn
[bri—s gariad

I gynnig dy holi;
Dy enaid a'th ddaioni
O'm gwir fodd a garaf fi.

Ai gwenu ai gwgu mae gogwydd—
[rhad byd,

Rhaid yw bod diwydrydd,
A deall gwâr cyfarwydd,
I drin dy gysefn swydd.

Adwaen, y cywrain wr eu—dy
[wyneb

A'th ddoniau'n prydyddu;
Ni chefes hanes, wyf hi',
Ai da lot yw dy lety.

Ai dedwyddol dy dyddyn — a
[gwellog.

Ai gellydd, ai dyffryn;
A'r achos, dangos, y dyn,
A gair o enw y Graienyn.

Yn dilyn ceir ateb Rowland Huw.

I. Y GRAIENYN.

☉ AIR a gefais o gariad—goreu dawn
A gair dwys ymholiad,
Gair prydydd a dedwydd dad,
Gair o annerch gwir ynad.

Hawdd it gael ansawdd gwael unswydd,—
I'th wneyd yn gyfarwydd, [nodais
O gyfiwr euog aflwydd,
Di-les ac ychydig lwydd.

Tir ag annedd trigiannol,—ti wyddost
Mai tyddyn ardrethol
Sydd iddo, ansawdd weddol,
Nid mewn bryn, dyffryn, na dôl.

Drysi a meini lle mynnir,—a choed
 A 'chydig weirglo'd-dir,
 Puraf ardal porfardir,
 Lleiaf yw'r dorth llatur dir.

Coedydd a derwydd llawn dail,—oer loches
 Ar lechwedd, yw'r adail;
 Gwacl gewyl serlyll eu sail,
 Dyrys-gae a drws gwiail.

Galwad sydd yn gyhoeddus—i weini
 Gwr enwog a pharchus;
 Nid oeddwn frytwn, a'i frys,
 Llaw ddinerth, yn llwyddianus.

Gofalon ddigon a ddug—achosion,
 A chwysu gan ddifffyg,
 A gofal fel pel mewn pyg,
 Wr ceulus yn mrig helyg.

Mae'r enw, er mor anial—y lle
 A'r lloest cyfartal,
 Fel cerbyd ar ergyd âl,
 Wawr groendew ar y growndwal.
 Un o'r mân raian* a rodd—yr enw,
 A'r anedd a'i cafodd;
 Cai ar gân od yw anodd
 Dull ei faint, deall ei fodd.

Mae naw deg yn myn'd o'i ogylch,—troedfedd
 Tro edel o'i amgylch;
 Llawn iawn gorff llinyn ei gylch
 Ef yw eurgain ei sawrgylch.

Uchder o nifer yn wir—tros ethol,
 Tri seithwaith a risir,

* Cymer y Graienyn ei enw. meddir, oddi wrth faen anferth sydd ar y tir.

Troedfeddau golau gwelir,
Iacha lein teg uwchlaw'r tir.

Llyna faen teg, raen di-gryn,—diamau
Mai dyma'r Graienyn;
Carreg o'r gwadu i'r coryn,
A ger llaw i gwrr y llyn.

ii. ARWYRAIN YR AWEN.

Ei dull godidog gan dduwiolion yn y wir eglwys, gydag
ychydig o ansawdd y cenhedloedd yn ei cham-ddefnyddio.

i.

Destro, ddawn uniawn enwawg—boreuol
Bêr awen odidawg,
Ymadrodd y beirdd mydrawg,
Fry ar lyn myfyria rhawg.
Nesawl ser, mor bêr y borau—cynnar
Y canant twyn odlau;
Cae Adda ddawn cywyddau,
Gân wiw glod! ag awen glau.

ii.

Doniau rhad, Duw Ion a'u rhodd,
Un Enos a encinodd,
Ac Enoc gynt a ganodd—fawl llafar
Ges gynnar esgynnodd.

iii.

Yma bu'n dyst meibion Duw,
Can deilwng cyn y diliw;
O lin i lin meithrin mawl,
Yn briodawl un bri-Duw.

Job a'i gadarn alarnad,
 Aml gwynion a mawl ganiad ;
 Ffediadau mydr, ddiwydr ddawn,
 Gŵr uniawn a gwir ynad.

iv.

Bu badricirch ddwyfawl cirehion,
 Ar brif eglwys loew lwys lën ;
 Lluaws cataidd llais cytun,
 Pura côr yn per wau cân.

Tallwyd y march i'r gwarch gurf,
 Y marchog, taecog, a'u torf ;
 Cerbydan mewn tonnau twrf,
 Llwyra tâl, llaw lor a'u tart.

Ond Israel, Duw hael a'u dug,
 Trwy ddwfr a thân, â chân chweg ;
 Cloddiant lyn a'u flyn heb llug,
 Ffynnon tywysogion teg.

v.

Diau Barac a Debora
 Canant emyn gytun gu ;
 Cawn hanes canai Hanna,
 A Dafydd, pen llywydd llu.

vi.

Solomon, sail
 Wiwdeg adail,
 Olau eiliawd
 Fil o folawd.

vii.

Rhodd Duw yw rhwyddlawd Awen
 O'i ras hael er yr oes hen,

I rai ethol rhoi weithian
 Ag a rydd dragwydd gân ;
 Ei ysbryd Ef sy'n llefain
 Trwy lân awen gymen gain,
 Effeithiol ragorol gân
 Yn yr eglwys rywioglan ;
 Brenhinoedd bronnau hynaws,
 A lleni nwyf llawn o naws,
 Uchelwyr niwyaf achlan,
 A phob gradd a gadd y gân ;
 Canai wragedd rhinweddawl,
 Un dull a'u beirdd, fwyn-geirdd fawl ;
 Cyson adsain llancesau
 Emyr i'w mysg i'm Ion mau.
 Arddelwyd yr addoliant
 Yn eu plith o enau plant.

viii.

Caniad eurwerth cenadwri
 O rad enwog a roed ini,
 Proffwydi, pur hoff ydoedd ;
 Llyma geiriau llawn o gariad
 A chysgodau i achos Geidwad
 Mabwysiad ym mhob oesoedd.

ix.

Angylion eang olud
 I'r byd a roc wybodaeth,
 Hedd ganwyd, hedd ganan,
 Ewch darian iechawdwriaeth ;
 Yno 'roedd iawn arwyddion
 Can gyson cynnyg Iesu ;
 Etifedd nef y nefoedd,
 Gŵr ydoedd i'n gwaredu.

x.

Cân Simon loewfron wiwlwys,—ac Ana
 A iawn aroglâ yn yr eglwys;
 Gair Brerin, deufin gledd dwys—saeth
 Bwa, a'i redia! o Baradwys. [cariad

xi.

Apostolion a'u hapus dalent,
 Gywir fawl Addaf gorfoleddant,
 Mewn pur addas niwyn pereiddiant—odlau,
 Mal un genau mawl Ion a ganant.

xii.

Bu doniau nifer dan y nefoedd,
 Mydrau cain odlau, i'r cenhedloedd,
 Firsil wawdydd a'i fawr sel ydoedd,
 A Horas gu addas gyweddodd;
 Homer, Pindar pond oedd—i'w gân
 Dall dduwiesau dywyll-ddu oesoedd.

xiii.

Palfalu canu fal cynt—i'r bydoedd
 A'r bodau a welynt;
 Achwyn a fydd na chanfyddynt
 Y Bod oedd yn llywio byd iddynt;
 Ond braidd ydoedd y breuddwydynt
 I'r Oen addwyn, er na wyddynt
 Mo'i anian hoewlau helynt,—enwedig
 Duw unig ni 'dwaenynt.

xiv.

Felly 'r oen ninnau oll o'r un anian,
 Ymroi i hechu bob mawr a bychan,
 Caniadau distas yn ol enawd aflan
 Oedd o goeg agwedd eiddig a gogan;

Estroniaid i'n caid a'n cân—i feddiant
Neu fawl gogoniant y nefol Ganan.

A ni yn clynnion lon a luniodd
Drosom o'i gariad, drws a agorodd ;
Ei fwyn fugeiliaid, Efe a'u galwodd ;
Iawn edifeirwch i ni adferodd,
Mabwysiad ei rad a'i rodd,—Trugaredd
Gras ei rinwedd gwir Iesu a rannodd.

Doniau ardderchog, dyner dda orchwyl,
Bwriad daionus ysbryd Duw anwyl,
Glân iachawdwriaeth glynwch hyd arwyl,
Wele ferch Seion, purion ddarparwyl,
A'i thympan hoewlan mewn hwyl—i ganu
Araith i'w dysgu, hiraeth o'i disgwyl.

xv.

Caniad Seion,
Mawr sain aeron,
Mor soniarus ;
Dawn gynghanedd,
A gorfoledd
Cywir felus.

Llais y durtur,
Bibau eglur
I bob ogliad ;
Gair efengyl,
Sain digweryl
Sy'n dy gariad.

xvi.

Dall priodierch,
Unig annerch,
Dinam draserch ;

I gyfarfod
 Ei gwir briod
 Ar ryw ddiwrnod
 I'w addurno.

Pob alltudion,
 Fychain, mawrion,
 Oedd a chalon
 I ddychwelyd ;
 Rhoes Duw nefol
 Ras ysbrydol
 Edifeirio!
 I'w hadferyd.

xvii.

Nawr gwell awen na'r galluoedd,
 Addurn ufudd i Dduw'r nefoedd,
 Digaeth ryddid a gweithredoedd,
 Cynewidiad cyfan ydoedd.

xviii.

Dyma swyn dynier,
 Ansawdd o nawdd Ner,
 Eur feirdd yn arfer
 Gwiwber ganiad ;
 Oedd awen dduwiol,
 Bridwerth ysbrydol,
 O ddinam wreiddiol
 Ymarweddiad.

xix.

Och, nid felly mae canu cynnen,
 Ond dreigiau cuog yw drwg awen ;
 Celwyddog ddiadol, hudol hoeden,
 Dad ei herwyr diwyd a'u harwen.





Y BALA FFAIR.

“Tre'r Bala i dyrfa deg.

Tre'r llwyn gwawd, tre'r llyn gwiwdeg.”

ELIS CADWALADR, 1738.

xx.

Byd am ryfyg bo? ymrafel,
 Cynnyg ebyrth Cain ac Abel,
 Scion Ion enwog
 Rhag saethau gau Gog
 A Magog ymogel.

xxi.

Dewis wryf, dy seren
 Wawr a dorrodd o'r dwyren ;
 Efengyl na fae angen,
 Gras Duw a gwersi dien ;
 Cariad eurwerth cred aren
 Ysbrydol is wybr Eden ;
 Pob duwiol ddawn yn llawn llwydd
 Iawn l.ywydd anwyl awen.

xxii.

Dod, Ior, dad iaith,
 Mwyn gôr mewn gwaith,
 Mal môr mawl maith,
 A mil mwy ;
 Mwynhau mewn hedd
 Ter fau tîrf wedd
 Dy glau deg wledd,
 A di glwy.

xxiii.

Mwy ni flinant, mac yn flaenor
 Iesu maclor, weis a'i molant ;
 Naf a garant, nef yw goror
 Caer tŵr lfor eu cartrefant.

xxiv.

Gwiw Ne gannaid, gynau gwynion
 Llys duwiolion, llais dialaeth,

Byrddau euraid a beirddorion,
 O newyddion awenyddiaeth;
 Telynorion, palmwydd gleision,
 Ebyr oerion, wiw beroriaeth;
 Dedwydd Seion, gwaredigion,
 A chyd aeron iachawdriaeth.

Cân Moses, felus foliant,—cân yr Oen,
 Cawn rinwedd ei haeddiant;
 Cân y ffydd sydd i bob sant
 Ar a ddél i'r addoliant.

Dy glod mawr hanfod mor hen,—o newydd
 Fy Nuw, a'm gwir berchen,
 Tragwydd i y trig awen
 A llais mawl i'th llys. Amen.

iii. AWDJ. Y DDANNODD.

Phisgygwyr a gwyr o geraint—Erydain
 A'm brodyr uchelfraint,
 Deuwch, mynnwch im enaint,
 A dwfr da i adfer daint.

Lluddio hun a lladd henaint—edwindod
 Yn c'wyn dydd iselfraint,
 Diau dyfod dioddefaint
 A chwys dwys o achos daint.

Pa greyr, pwy sethyr, pa faint—poenodrist,
 Pa nadroedd a llyffeint,
 Pa ryw chwil sydd mewn cilldaint
 Yn gwywo dyn gan waew daint?

Rhyw gŷn gronyn fel gwraint—o drallod
 Yn dryllio fy merddaint,

Cenau aelddu canolddaint
Gwenwyn dart i gonyndaint.

Locust, bry athrist mewn braint,—a llew byw
Yn lleibio fy merddaint ;
Bloedd calon ddelff mal celffaint,
Un cenau dig, yn cnoi daint.

Palfog wadd a gadd geuddaint,—i'w dirio
Fel dera neu farchwraint ;
Brad arnaf, briw di-enaint,
Cwlwm wŷn dost, clwy mewn daint.

Mwy cryd naws gofid na sgyfaint—poenus,
A'r pen yn anghywraint ;
Byrbwyll ag anwyll gymaint,
Cwyn âdir dost cynddaredd daint.

Arafwn, sobrwn fel saint—gwell ydyw
Rhag llid a digofaint ;
I'n cyfwrdd, wanna cwfaint,
Mwy fin ddwys na phoent y delaint.

iv. I GRUFFYDD HUW AM FAIP.

Cymydog hafog o'i heufaip,—gwiw lwys,
Ymgleddwr melyn-faip,
Rhoddodd, anfonodd im faip,
Rhywiog erfai rhagor-faip.

Gruffydd a orfydd wir-faip,—un hylaw
Yn hulio llafur-faip ;
Boreu'n arfer braenar-faip,
A chyn mis yn chwynnu maip.

Cyfaill a rhandir at faip—llawn gwyrdd-ddail,
A gerddi mamogfaip ;

Goreu gwr, ffurfiwr ffeirfaip,
Am yndrin a meithrin maip.

Aed ar led lifed oleufaip—had ferw,
Hyl Feirion yn frasfaip,
Ac yn Arfon gynnar-faip,
A gwlad fon yn glwyd o faip.

Caf had a'rfisiad o freu-faip,—a dwg
Im ddigon o goch-faip,
Tirfaif yn pori ter-faip,
Cael maeth wrth yfed cawl maip.

Ar eu canfed y bo cyn-faip—Gruffydd,
Gŵr hoffus ei blan-faip,
Gwnawn geirdd, wych-feirdd, i'w iach-faip,
Ebrwydd fawl am beraidl faip.

v. YSTYRIAETHAU.

Ar addewidion Duw i Israel am Ganan, ac yn ysbrydol
pererindod y Cristion i'r Ganan nefol.

Pererin gwael wyf fi o'r llwch
Yn teithio anialwch Paran,
Yn ffoi i'r Aifft rhag Pharo a'i lid,
Ac ennill rhyddid Canan.

Yr hyn nis gallaf ar fy nhaith
O'm nerth a'm gwaith fy hunan,
Y Prenin sydd i'm galw'n nes
I mewn i'w gynnes Ganan.

Efe a draethodd act y gras,
Pan oeddwn gas ac ailan;
Cawn fynd er maint y storm a'r stwr
Drwy ganol wr i Ganan.

Efe a'm dug drwy nerth ei fraich,
 Er maint fy maich a'm tuchan,
 I gael yr etifeddiaeth rad,
 A'm cynnal yng ngwlad Canan.

Fe wna'r dyfnderoedd yn dir sych,
 O'r graig fe wlych bob safan,
 Nes mynd o'i etholedig blant
 I wlad gogoniant Canan.

Chwychwi hâd Abram oll i gyd,
 Plant yr addewid burlan.
 Yw'r rhai sydd gennych lygad flydd
 I weled cynnydd Canan.

Y rhai sydd wael heb hawl neu werth,
 O'u grym a'u nherth eu hunan ;
 Ond sydd a'u hetifeddiaeth rad,
 Ddigonol, yng ngwlad Canan.

O Seion, irion yw dy wraidd,
 Er bod a'th braidd yn lychan,
 Derbyniaist addewidion llawn
 Yn gynnar iawn am Ganan.

Etifedd ydwyf i'r wraig rydd,
 Mae gennyf flydd yn darian ;
 Am hyn cei fynd, yng Nghrist a'i hawl,
 I ganu mawl i Ganan.

Fy enaid, gorfoledda'n lawr,
 Er bod yn awr yn egwan ;
 Rhoes iti fias o'i ras a'i rin,
 Fel sypiau gwin o Ganan.

Dy gariad sydd heb dor na thrai,
 Tuag at y rhai a'th ofnan ;

Pan ddygit fi, gan wrando nghwyn,
Y gwanna o'r wyn, i Ganan.

O cynnal i' enaid gwael yn ol
Dy serch a'th unol anian;
Dwg fi trwy'r byd o hyd mewn heddi
I'th wir ogonedd Ganan.

Flydd y Cristion, sef nerth Duw a berffeithir mewn gwendid.

Yr Arglwydd yw fy rhan a'm nerth,
Fe aeth yn aberth dros of;
Ni ad fy Nuw, fy nerth a'm rhan,
Fy enaid gwan yn angof.

Myfi sydd gyfnewidiol iawn,
A'm enawd yn llawn o bechod;
Sel ddigyfnewid sydd i'm gwawdd,
Fy Nuw, fy nawdd, a'm priod.

Gwan fel Moses yn yr hesg,
A llwfr a llesg fy llusern;
Ond brach fy Mhrynwr sydd fwy cry
Na'r Ddraig a gallu uilern.

Er bod fy nhaith drwy'r moroedd trwch,
A'r tew anialwch niwliog;
Cal fynd i Ganan ddydd a ddaw
Drwy nerth y llaw alluog.

Mac'r Oen a laddwyd ar fy mhlaid,
Foed sicr i'm henaid egwan;
Fe'm dwg i'r lan er gwaetha llid
c nawd, y byd, a Satan.

Dy arfaeth di, fy Mugail da,
 Drwy gariad a thrugaredd;
 Sy'n gweithio'm hiachawdwriaeth ddrud
 O'r dechreu hyd y diwedd.

Tydi a'm ceraist cyn fy mod,
 Fy Nhad a'm priod teilwng;
 A gwedi m rhwynio â phechod caeth,
 Tydi a ddaeth i'm gollwng.

O llaw fi a'th Ysbryd rhad,
 Fy Nuw, fy Nhad, a'm Cytell,
 A thyn fy enaid ar dy ol
 O'r hen ddaearol babel.

Yr Arglwydd yw fy rhan a'm nerth,
 Fe aeth yn aberth drosot;
 Ni ad fy Nuw, fy nerth a'm rhan,
 Fy enaid gwan yn angof.



RHOBERT WILLIAM Y PANDY.

[Amaethwr yn y Pandy, ger y Bala, oedd Robert William. Ganwyd ef yn 1744; claddwyd ef yn Llanfor, Medi 1, 1815. Yr oedd yn ddysgybl i Rowland Huw, ac yn athro i Ioan Tegid. Codwyd y darnau sy'n canlyn o ysgrif-lyfr trwchus, yn ei law ef ei hun (dechreuodd ysgrifennu yn 1768), sy'n awr yn meddiant ei deulu. Gwel *Cymru* II., 210—213.]

i. Y BEIPL.

TYRED, Awen naturiol,—i gynnig
 Rhyw ganiad ysbrydol;
 Gwan iawn wyt i ganu'n ol
 Sail addysg gwyr sylweddol.

Llyfr doeth yn gyfoeth i gyd,—wych iwyddiant
 A chleddyf yr ysbryd,
 A gair Duw Neï yw hefyd,
 Feibl i bawb o bobl y byd.

Maes helaeth mwya sylwedd,—iawn fedrus
 Anfeidrol ei rinwedd;
 Gair anwyl y gwirionedd
 Byd yw hwn, bywyd a hedd.

Rheol ryfeddol o foddion,—dwysgall
 Yn dysgu pob dynion;
 Goreu baint roddwyd ger bron,
 Yn nwyllaw annuwilion.

Perl nefol pur iawn asfaeth,—gwir amod
 A grynus ddysgeidiaeth;
 'Rhwn oedd, sydd, a fydd iawn faeth,
 Yn dirwyn iechydwrïaeth.

Gair iawn di ysgog, goreu i n dysgu,
 Union a grasol, yn cin gwir Iesu

Deuwn o'n gw'radwydd, da i ni gredu
 O gyd wiw fwriad, ag edifaru;
 Poed in Nef i gartrefu—yn diwedd,
 Mwy a dawn rinwedd! mae Duw'n ei rannu,

ii. BLINDER AC YMDDIRIED.

Rwy'n dechre blino'n awr ar bethau'r ddaear hon
 'Does wrthrych rhwng y nef a'r llawr a'm gwna
 fi'n llon,

Gwlad well tu draw i'r bedd 'rwy yn ddymuno
 gael,
 A'm henaid mewn tragwyddol bedd, da wedd,
 di wael.

Rhyw ryfel yma sydd mewn byd rwy'n awr
 yn byw,
 A minne'n siwr o gelli'r dydd heb nerth fy Nuw;
 Adlewid Un a Thri yw 'nghysur a fy nghân,
 Y bydd ei hunan gyda mi, mewn dŵr a thân.

Fe ddwedodd Crist Mab Duw mai gorthrym-
 derau a gawn

Ac O! na byddwn ynddo'n byw, fe yw fy iaewn;
 Nid oinwn ar un pryd drallodau mawr a ddaw,
 Ond cael, er allo cnawd a byd, fod yn ei law.

Er amled yw fy nghri tan ryw amhenon mawr,
 Ac anghrediniaeth sy' ynnof fi, i'm taflu i lawr;
 Disgwyliaf gryfach ffydd, i godi f'ysbryd gwan,
 A newy o nerth yn ol y dydd i nofo i'r lan.

Gweddio wnaif o hyd gael cyn terfynu f'oes
 Dystiolaeth fadde meiau i gyd, trwy Oer y Groes;

Ei waed ar Galfari sydd ddigon i'm glanhau,
 Par i'm holl glwyfau marwol i gael eu biachau.
 Wrth draed y Meddyg da 'rwy yn dymuno bod,
 'Does unlle gwell i enaid cla', caiff ynt'e'r clod ;
 Mae'r Iesu'n eiriol fry, a'i hen drugaredd rad,
 Yn enw hwn dof sinau'n hy i dŷ fy Nhal.

III. GWELEDIGAETH YR ESGYRN
 SYCHION.

Rhyw son am esgryn sychion cawn, os awn i
 'nrofn ;
 Ac wle hwynt yn amal iawn, ar wnech dyffryn ;
 "Hia fab dyn, fydd byw rhai hyn ?" yw'r gair
 ofynnwyd,
 Ac er bod mewn mytyrdod sy., ni wyddai'r
 proffwyd.

Proffwyda am yr esgryn hyn, a dywed wrthynt,
 Er bod yn feirwon sychion syn bob un o honynt—
 "Clywch air yr Arglwydd sydd yn dweyd " Rhof
 anadl ynoch,
 Fel trwy yr hyn 'rwyf yn ei wneyd mai byw a
 fyddwch."

Fel hyn y parai'r Arglwydd gynt i'r anadl yma—
 Tyr'd oddwrth y pedwar gwynt, ac anadla
 Ar y lladdedigion hyn, a byw a fyddant,
 A rhai gant eto'n cannu'n wyn a orfoleddant.

A phan broffwydodd, swm a fu, a chlynnwr hetyd,
 A'r anadl a ddaeth i'r holl lu, mewn byr ennyd ;
 A safent yno ar eu traed yn llu lliosog ;
 A minne saif, drwy rinwedd gwaed ein brawd
 trugarog.

iv. Y FARN FAWR.*

Duw, er mael dyro i mi
 Hwyl union o'th haelioni ;
 Par fywyd, pura f'awen,
 Addwyn yw hi, y ddawn hen,
 I wau gwiwdeg we gadarn
 Yng nghylch y dydd y bydd barn.
 Hwn yw'r dydd sydd yn neshau
 Draw eisoes wrth y drysau ;
 Dydd echrws, arswydus son,
 Niwlog i annuwiolion ;
 Dydd chwerveidd dialedd diluw,
 Dydd blinder, a digter Duw ;
 Llid oer naid, fal lleidr y nos,
 Mynegwyd mae yn agos ;
 Dydd o brosiad ofnadwy,
 Diwedd mawr, ni bu dydd mwy.
 A phwy wyr ai'r hwyr, er hyn,
 Y dechreu amser dychryn ?
 Cof ofnog, ai y cyfnos ?
 Cynil nawdd, ai canol nos ?
 Ai ar y wawr, ddîrfawr ddydd ?
 Cwyn wael ddwys, ai canol-ddydd ?
 Geiriau Naf sy'n gwiriaw,
 Goreu dyst, mai gwir y daw ;
 Gair Iesu mor gu a gaf,
 Iach helaeth, pam na choelaf ?
 Daw i bob parth ar wartha
 Drwg di-rôl, duwiol a da ;

* Codwyd y cywydd hwn o un o ysgritlyfrau Row'an Hw. Y mae'r hen fardd wedi rhoddi cywydd ei ddisgybl gyda chywydd ar yr un testyn gan William Wynn, a chydag un o gywyddau Goronwy Owen.

Cynnwrf, a thwrf a therfysg,
 Foddau mawr, a fydd yn mysg
 Cenhedloedd ag ieithoedd gwâr,
 Ddeuant o gyrrau'r ddaear;
 Annuwiol blant, toddant hwy
 Yn gyfan ddydd eu gofwy;
 Pob wyneb glân cyfan eu
 rleb urddas a gasgl barddu;
 Syndod rhyfeddod a fydd
 Cwynfawr, a phawb a'i cenfydd;
 Ac yna y crynna cred,
 Gad gyngraffi gyd ag anghred;
 A'r holl ddaear fyddar fud,
 Gron hoew-fawr, a grynu hefyd,
 A'r defnyddiau, geiriau gwir,
 Di-ddym gan wres a doddur;
 Ddaear a'i gwaith, dewr faith dw
 Anobaith, a lysg yn ulw;
 Tywelltir, tefir lel tân
 Ar led oll, oer lid, allan;
 A'r creigiau, bryniau pob bro,
 O gwmpas yn ymgwmpo;
 Y greadigaeth gry degwch
 Cynry, ag a dry yn drwch;
 Natur frau, ddiau ni ddal,
 A ddetyd yn ddiatal;
 Twrw, wae maith, hyd tir a môr,
 Ag ing a chyfyng gyngor;
 Dynion fydd ar y dydd du,
 Hyll agwedd, yn llewyg,
 Gan otn a braw draw yn drwm,
 A gwarthudd euog orthrwm.
 A wedi yr aniddanwch,
 Gorthrymder, a'r trymder trwch

Ni rydd haul o'i draul a'i dro
 Ei lewyrch i oleuo ;
 A'r lloer wen uwch ben byd,
 Rhyfedd, a d'wllir hefyd ;
 Ser y nef, siwr yw i ni,
 Serth adeg, a syrth wedi ;
 A nerthoedd nefoedd yn wir,
 Esgud waith, a ysgydwir.
 Yna gwelant Oen gwiwlan,
 Ar ei Orsedd loewedd lân,
 Gyda ei blai! curaidd wedd,
 Llawn o fawl, llu nefoledd ;
 Yn dwad, codiad cadarn,
 Ar y byd i wir roi barn ;
 Clywir bloedd y cyhoeddwr
 O bedwar gwynt byd o'i gwrr ;
 Galwad i bob gwlad glir,
 At gannoedd a utgenir ;
 E gyrraedd i bob goror
 Daear faith, mawr waith, a môr ;
 Perir i bawb ympiriaw,
 A'r meirwon ddynion a ddaw ;
 Gwelir pawb yn y golwg,
 Diau o drem da a drwg ;
 A rhennir oll y rheini,
 Gwir yw, medd y gair i mi ;
 Ein Rhi eglur yn rhaglaw,
 A'r ddau lu ar ei ddwy law ;
 Rhai cyfion di-drawsion draw,
 Dda helynt, ar ddeheulaw ;
 A'r annuwiol o'u hol hwy,
 Wawr isel, ar yr aswy.
 A'r llyfrau a'u geiriau gwir,
 Gu arwydd, a egorir ;

A llyfr gair Mab Mair mau,
 Gwirionedd gywir enau ;
 Llyfr sfraceth creadigaeth Duw
 I dylwyth cyn y diluw ;
 A diball lyfr cydwybod
 Yn blaen iawn, blin yw ei nod !
 I'r rhai caog llwythog llawn,
 Cof-lyfr pechodau cyllawn ;
 I'r dieuog pwylllog pur,
 Gesyd anrhaethol gysur ;
 Fob un grasol nefol nod
 A hurir yma'n barod,
 Fodd enwog, a feddianna
 Favr urddas y Ddinas dda ;
 A gwyn eu byd hyfryd hwy,
 Nerthol yw eu cynhorthwy ;
 Ni ddeall dyn o ddull doeth,
 Cofswm, pa faint y cyfoeth
 A rydd Duw lor, blaenor ei blaid,
 Yn wiw elw i'w anwyliaid ;
 A'r anufudd yn suddaw
 Yn fudan môr druan draw ;
 Gwac ddynion a gwedd anwir,
 Nid hwy a safant eu tir ;
 Anadl yr Ion cyfion eu,
 Fodd chwithig, fydd i'w chwythu,
 Fel y manus hysbys hynt,
 Flina cur, o flaen corwynt.
 Y Barnwr, rheolwr hylaw,
 Farn gyfion o'i ddwyfron ddaw ;
 Dywaid wrth y rhai duwiol
 Yn fwyn iawn, fu yn ei ol,—
 " Dewch chwi, fy mhlant di-wael,
 O'r byd mae gwynfyd i'w gael ;

Mae'r Deyrnas roed, heb oedi
 I'w chael, bartowyd i chwi ;
 Hoew-fraint ardderchog hyfryd,
 Di-ball er seiliad y byd ;
 Meddiennwch mewu modd union
 Dirion swydd y Deyrnas hon ;
 Am mai da gwnaethoch i mi,
 Diochel bydd da i chwi."

A'r rhai anwir rhoddir hwy
 I fynediad ofnadwy ;
 Dywaid Ef,—“ Ev'ch, ni chewch chwi,
 Gelynnion y goleuni,
 Ond uslern gethern i gyd,
 Ddalfa dros dragwyddollyd ;
 Tywyllwch caeth annrhaethol
 O ddiig barotowyd i ddiawl.”
 Yna yf ant, coddiant caeth
 Dygyn, i gosbedigaeth ;
 Annoethedd drwg a wnaethant,
 A crwg, oer gilwg, a gânt.

Y duwiol lu di-wael oll
 Ddygir i'r nei yn ddi-goll,
 I ganu clod, a bod byth,
 Mewn addoliad mwyn ddi-lyth,
 I'w Prynwr a'u carwr cu
 Dewisol a'r Duw Iesu ;
 Sylwedd y Ddinas oleu,
 Por yw hwn byth yn parhau ;
 Boed inni ran gyfan gu,
 Da olud, yn ei deulu ;
 Fywy bwy yno bob cnyd
 I ganu mawl, gwyn y myd.

v. Y DELYN

Gwledd gorfoledd gwir felus—yw niwsig
 A moesau cysurus;
 Naturiol, liesol mewn llys,
 A'i sain euraid soniarus.


vi. BEDD GENETHIG.


Gwel fedd gu ieuengedd gangen—gynnar-dwf—
 Gan ir-ler ei deilen;
 Cencihig fel gwenithen,
 Gwers yw hi i'r gwŷr sy hen.

vii. AMCAN Y BARDD.

Fy amcan i, gan hynny,
 Oedd ceisio llwyr wrth'nebu
 Meddyliau gweigion o bob rhyw,
 Os cawn gan Dduw fy helpu.







COFGOLOFN CHARLES O'R BALA.

O waith Mynorydd.

"Dyma'r seren a ddisgleiriodd
O'haen bore'r Jubil fawr." D. CADWALADR.

CHARLES O'R BALA.

[Ganwyd Thomas Charles yn Longmoor, Llanfihangel Aber-cywyn, Hyd. 14, 1755. Pan yn Rhydychen daeth i'r Bala gyda Simon Lloyd (1756-1816), cyd-efrydydd iddo. Yn 1783 priododd Sally Jones o'r Bala; yn 1784, wedi hir geisio lle yng Nghymru "fyth yn anwyl," cafodd guradiaeth Llan-y-m-Mawdwy. Yn y Bala y bu byw wedi priodi; oddiyno,—gyda chymorth rhai fel Simon Lloyd, John Evans, George Lewis, a Thomas Jones o Ddinbych, Robert Jones, Rhoslan, creodd gyfnod newydd yn hanes meddwl Cymru. Y mae ei gysylltiad â'r Ysgol Sul, y Beibl Cymraeg, y Gymdeithas Feiblaau, ac Ordeiniad 1811 yn rhan o hanes Cymru. Yn 1789 daeth yr *Hyfforddwr* allan yn ei flurf gyntaf; yn Ebrill, 1799, ymddanghosodd rhifyn cyntaf y *Drysofa Ysbrydol*, yn 1801 daeth rhifyn cyntaf y *Gwladur*. Yn ei ymgeis a'i ynni, dygodd Thomas Charles lu o wyr athrylithgar i weithio. Delfrodd Howell Harris gydwybod Cymru, delfrodd Thomas Charles ei meddwl. Yr eidd swyn rhyfedd yn ei enw pan fu farw. Hydref 5, 1814. Claddwyd ef ym mynwent Llanecil, wrth dalen dwyreiniol yr eglwys. Cyhoeddwyd *Cofiant* cynhwysfawr gan y Parch. D. E. Jenkins yn 1908.]

DYFAIS TRAGWYDDOL GARIAD.

DYFAIS fawr tragwyddol gariad
 Ydyw'r iachawdwriaeth lawn,
 Cylamod hedd yw'r sylfaen gadar,
 Yr hwn nis derfydd byth mo'i ddawn;
 Dyma'r fan y gorffwys f'enaid,
 Dyma'r fan y byddaf byw,
 Mewn tangnefedd pur heddychol,
 Ymhob rhyw stormydd gyda'm Duw.

Sylled iechyd, sylled bywyd,
 Caawd a chalon yn gyttun,
 Byth ni sylla amod heddwch
 Hen gytundeb Tri yn Un;

Dianwadal yw'r addewid,
 Cadarn byth yw cyngor Duw,
 Cysur cryf sy i'r neb a gredo
 Yn haeddiant Iesu i gael byw.

Bam yn wyneb pob gorchymyn,
 Bum yn wyneb angen glas;
 Gwelais Iesu ar Galtaria
 Yn gwbl wedi cario'r maes;
 Mewn cystuddiau 'rwyf yn dawel,
 Y fuddugoliaeth sydd o'm tu,
 Nid oes clyn wna i mi niwed,
 Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd try.

Pethau chwerwon sydd yn felus,
 T'wyllwch sydd yn oleu clir,
 Mae'm cystuddiau imi'n fuddiol,
 Ond darfyddant cyn bo hir;
 Cyfamod hedd bereiddia'r cwbl,
 Cyfamod hedd a'm cwyd i'r lan,
 I gael gweld fy etifeddiaeth,
 A'i meddiannu yn y man.

Gwelais 'chydig o'r ardaloedd
 Yr ochr draw i anghau a'r Ledd
 Synnodd f'enaid yn yr olwg,
 Teimlais anherlyndol hedd;
 Iesu brynnodd imi'r cwbl,
 Gwnaeth hi waed anfeidrôl iawn,
 Dyma rym fy enaid euog,
 A fy nghysur dwyfol llawn.

DAFYDD CADWALADR.

[Ganwyd Dafydd Cadwaladr yn 1752, yn Erw Ddinmael, Llangwm; daeth i ardal y Bala i wasanaethu yn ieuanc; dysgodd y wyddor oddiwrth lythrennau nod ar ochrau defaid; cafodd fwy i'w ddychymyg yn *Nhaith y Pererin a Gweledigaethau Bardd Cwsg*. Wedi oes o lafur egniol fel efenglydd, bu farw Gor. 9, 1831. Cyhoeddwyd cyfrol o gofnodau am dano yn y Bala yn 1836. Claddwyd ef yn Llancil, ac y mae golygfa ardderchog oddi wrth ei fedd ar Lyn Tegid a'r Aran.]

MARWNAD CHARLES O'R BALA.



SEION ofnog, paid ag wylo,
 N' ad im' glywed mwy mo'th les;
 Ca'dd Charles synd i herffeithiach eglwys,
 'N awr mae'n gorflwys yn y nef:
 Y enawd a'r galon oedd yn pallu,
 Duw oedd ei ran a'i nerth yn awr;
 Fe ymadawdd mewn tangnefedd,
 Yn strwd yr iachawdwriaeth fawr.
 'Roedd ei farwolacth i ni'n golled,
 Ond iddo ef yn ennill mawr;
 Cawn ninnau fedd o strwyth ei lafur,
 'Tra bo'm ni'n aros ar y llawr:
 Yr *Egwyddorion* ga'dd e' o'r Bibl,
 Maent gyda ni heb ddim gwahan:
 Caiff myrdd o blant eu maethu drwyddynt,
 Hyd onid elo'r byd ar dŵn.
 Mae ei *Drysorfa'n* llawn danteithion,
 I borthi'r ofnog gwan ei ffydd;
 Y mae'r *Griwiau* mawr fel allwedd,
 I ddwyn i'n golwg bethau cudd.
 Ei 'madrodd rhwydd, a'i cidysg yn uchel,
 Egwyddor iach, nefoldeb llawn;
 Mae'n cario perlau disglair inni,
 Wna bobl Cymru'n brydferth iawn.

Cyfododd un o deulu Gomer,
 Wnaeth fwy na neb er dechren'r byd,
 I yrru'r Bibl i bob ierthoedd,
 I gasglu ciddo Crist ynghyd ;
 A hwn dau seiliau teyrnas anghrist,
 Er uchel yw ei brig yn awr ;
 Y garreg eia yn llond y ddaear,
 Mae'n rhaid i'r delwau gwmpo i lawr.

Dyma'r seren a ddisgleiriodd,
 O flaen bore'r Jubl lawr ;
 Disgwyliwn bellach i'r wawr godi,
 Mae'r seren wedi mynd i lawr :
 Gwybodaeth Duw a doa'r ddaear,
 Bydd mawl yr eglwys yn ei rym.
 Cynhulliad pobloedd at y Siloh,
 A Babel wedi cwmpo'n ddim.

Ca'dd yn ei gorff gystuddiau trymion,
 O dan y rhai'n te gadwai'i le ;
 A phob dadleuon yn yr eglwys,
 A flinai'i feddwl tyner e ;
 Ac annuwioldeb ei gym'dogion,
 Gedd iddo ef yn ohd llyn :
 'Nawr le drow'd y groes yn goron
 'D rhaid iddo mwyach ddioddlef dim.

'N awr 'rwy'n colli'm golwg arnat,
 'D wy'n 'nahod dim o honot fry ;
 Nid wyt ti swm yr un o'r tywod,
 Nid wyt ti bwysau'r un o'r plu' ;
 Nid tebyg wyt i un creadur,
 A welwyd mewn daearol fyd ;
 'Does arnat liw, na dull, na mesur,
 Er hynny sylwedd wyt i gyd.

A wyt ti'n gweled peth yr awrhon,
 O ddwfn ddirgelion Tri yn Un ?
 Pa fath olwg sy'n y nesoedd,
 Ar a gym'rodd natur dyn ?
 A ydyw rhyfeddodau'r Duwdod,
 Yn dod i'th olwg heb ddim rhi ;
 Neu ynte wyt yn gweld efengyl,
 Yn llenwi conglau'n daear ni ?

Ai'n ol darluniad Watts neu Baxter
 Mae gwaith y nef yn mynd ymlaen ;
 Gweddio, ymddiddan, a phregethu,
 Neu ynte dim ond c'lymu cân ?
 A yw 'difeirwch, ffydd, a gobaith,
 Wedi ymadaw'n llwyr yn awr,
 A dim ond cariad yn teyrnasu,
 O boethder fflam yr eirias fawr ?

A wyt ti'n vsogog fel y fellten,
 Ynghanol yr eangder nawr ?
 A ydyw t'wysogaethau'r neloedd,
 Yn adnabyddus i'th yn awr ?
 A wyt ti'n 'nabod pawb o'r seintiau,
 A rhif angylion sydd wahân ;
 Ai am gre'digaeth neu am brynnu,
 Mae'r nifer twya'n seinio cân ?

A wyt ti'n coño geiriau'r Dibl,
 Dy bleser pennaf gyda ni ?
 A yw 'madroddion y proffwydi,
 Yn llonni byth dy ysbyrd di ?
 A ydyw gweledigaeth loan
 Yn awr yn eglur o dy flaen ?
 Ai ynte wyneb y Jehofah,
 Yn unig yw d'orllwystia lân ?

A wyt ti'n gweld dy gorŷ yn luno
 Ym mynwent Beuno dan y pridd ?
 Oes arnat hiraeth yn y nefoedd
 Am weld yr adgylodiad ddydd ?
 A wyt ti'n cymhell yr angylion
 I gasglu'r saint o gyrrau'r byd ;
 Ai ynte bod yn ddistaw lonydd,
 Ym mynwes Abr'am 'r wyt o hyd ?

Chwi'r angylion ddaeth yn lliaws,
 A'r n'wyddion da o'r nef i lawr,
 Derbyniwch genadwri dirion,
 I'w ddwyn yn ol i'r nef yn awr :
 Cymanfa'r Beibl sydd yn llwyddo,
 Gair Duw sy'n ceinio i bob lle,
 Ysgolion Sabboth sy'n cyabyddu ;
 Cyhoeddwch hyppy iddo fe.

Boed bendith byth ar Sir Gaerfyrddin,
 Am tagu'r impyn mawr ei ddawn ;
 Boed bendith byth ar deulu'r Bala,
 Lle cadd ei godi'n uchel iawn :
 Boed bendith Duw a'i ras yn belaeith,
 Yn dilyn ei hiliogaeth ef,
 A llwyddiant i'r elengyl dawel
 Ymhith pob ceasedl dan y nef.

Goddefwch bellach air o'm hoŷnau,
 'Rwy' yn ei dd'wedyd gyda braw,
 I'r cyŷiawn hwn gael dianc ymaith,
 O slaen rhyw ddrygau mawr a ddaw
 Yn y wlad neu yn yr eelwyc,
 Y tyrr rhyw bla fel ŷlamau byw !
 Ond d'wedai'n uchel wrth ymadael,
 Mai noddfa dawel iawn yw Duw.

WILLIAM JONES.

[Ganwyd William Jones yng Nghynwyd yn 1764. Daeth i'r Bala yn fachgen, a daeth yn feistr ffactri drwy gymhorth y Parch. Simon Lloyd. Bu farw Mai 2, 1822].

CWYMP BABILON.

MAE'R dydd yn neshau,
Ceir gweled yn glau
Daw Fabilon gadarn i lawr;
Mae'r taliad mor ddrud,
Teyrnasoedd y byd
A'n eiddo Emmanuel mawr.

Hen anghrist sydd fawr
Palurir i lawr,
Mae'r garreg a'i threigliad yn rhydd;
Er gorfod cael briw
Daw'r tystion yn fyw,
Haleliwia! Bron gwawrio mae'r dydd.

Er cymaint yw'r llid,
Daw'r gaethglud i gyd
O ddyfnder caethiwed yn rhydd;
Fe ddaw'r Jiwbili
I fyny'n llawn rhi,
Haleliwia! Bron gwawrio mae'r dydd.

Mae'r dyad yn neshau
Pan ddryllir yr iau,
Oherwydd enciniad y Fen;
Mae'r amser gerllaw,
Iddewon a ddaw
I garu'r Hwn fu ar y Pren.

Y GWLAW GRASLAWN.

O fy Nuw, a'm tirion Arglwydd,
 Rho'r cawodydd pur i lawr,
 I ireiddio f'eiddil ysbryd,
 Sydd yn sychlyd iawn yn awr;
 Dyro'r dylanwadau nefol,
 Ennyn bob rhyw ddwyfol ddawn,
 Rho dy gariad a'th ymgeledd,
 Difa'r llyrgedd sy' ynwy'n llawn.

LLAFUR ENAID.

" O lafur Ei enaid y gwel.

Y Meichiau a wêl,
 Ei lafur dan sel
 Fe'u mynn hwy o afael y lliid,
 Hwy garwyd yn rhad,
 Fe'u prynnwyd â gwaed,
 Fe'u gelwir, fe'u golchir i gyd.

Ar Galfari fryn,
 Yn haeddiant Duw-ddyn,
 Caed trysor, am dano bydd sôn;
 Mae'n gyfoeth mor ddrud,
 Fe leinw'r holl fyd;
 Clodforedd am rinwedd yr Oen.

WILLIAM EDWARDS.

[Ganwyd William Edwards yn 1777. Nai a disgybl oedd i Robert William y Pandy; gwehydd wrth ei grefft, ac yn byw dan yr unto a'i dad yng nghyfraith. John Evans. Gwnaeth lawer i helpu Mr. Charles gyda'r Ysgol Sul; ac y mae ei emynnau'n adlais o waith yr Ysgol a gorfoledd y Sasiynau. Bu farw yn 1853. Gwel *Cymru III.*, 77, 96, 162.]

CYSGOD ION.

Y RHAI o dan dy gysgod, Ion,
Yn gyson a arhosant,
Dan lewyrchiadau'th wyneb pryd
Y rhain fel yd adfywiant.

Blodeuânt, tyfant tua'r nen
Fel y winwydden ffrwythlon,
A bydd eu harogl wrth eu t. in
Mor bêr a gwin Lebanon.

Lledant eu gwraidd mewn daear fras,
Wrth afon gras y bywyd,
Eu ceinciau gerdd, eu tegwech fydd
Fel olewydd yn hyfryd.

AWELON NE.

Ewch ynlaen, awelon grymus,
Chwythwch ar yr anial fyd,
A dadwreiddiwch ar eich cyfer
Gedrwydd cryfa'r ddraig i gyd;
Fel bo'r ddaear
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni.

Y mae f'enaid gwan yn gwenu
Wrth eich swm, awelon ne,

Yn gwasgaru anwybodaeth
 Cysgod angau o bob lle ;
 Colen bywyd
 Sydd yn dilyn ar eich ol.
 Udgorn grasol yr fengyl
 Swdd yn bloeddio yma a thraw,
 Beddau floedd gaiff eu hagog,
 A'r marwolion allan ddaw,
 Geiriau bywyd
 Yw lleferydd Mab y dyn.

IESU.

Does neb o d Efi, fy Iesu hardd,
 A ddichon lanw 'mryd ;
 Fy holl gysuron byth a dardd
 C'i ddirfawr angu drud.

Does dim yn gwir ddifyrru f'oes
 Helbulus yn y byd,
 Ond golwg mynych ar y Groes,
 Lle talwyd Iawn mewn pryd.

Mi welaf le mewn marwol glwy
 I'r euog guddio 'i ben,
 Ac yma llechaf nes mynd trwy
 Bob afwydd i'n y nen.

COBAITH SEION.

A heibio'r nos gymylog hon,
 Mae'r bore I ron a gwawrio ;
 Bydd Seion Duw, a'i gruddiau'n llon,
 Yn magu meibion eto.

O cyfod, Seion, na fydd brudd,
 A gwel y dydd yn gwawrio ;

Cei ar dy fronnau fagu plant
 Mewn ffydd a ffyant eto.
 Er bod ar lawr yn wael dy fri,
 Flynnyddau'n ddi-epiledd,
 Cei blant o groth yr arfaeth gu
 I'w magu mewn gorfoledd.
 Anrhydedd mawr i ti gael trin
 Gwir blant y brenin Alpha,
 Y rhai a brynnodd Ef, cyn hyn,
 A'i waed ar fryn Callaria.
 Cael gweld y rhain yn tyfu'n hardd
 O fewn i ardd Jeholah,
 A wna i'th galon lawenhau
 Pan fo ei dagrau amla.

YR EFENGYL.

Mae'r iachawdwriaeth glir
 Yn dechreu llifo'n wir
 Dros anial dir negroaid du ;
 Pob cenedl, llwyth, ac iaith,
 Dros wyneb daear faith,
 A welant waith yr Iesu cu.
 O fendigedig awr,
 Di-gleiriodd bore wawr
 Ar anial mawr yr India bell ;
 Ymdaenu mae o hyd
 Efenfyl deg ei phryd,
 Hi leinw'r byd â'i n'wyddion gwell.
 Holl anwybodaeth mawr
 Y byd a syrth i lawr

O flaen y wawr nefolaidd wiw ;
 C'wilyddia'r delwau i gyd,
 Bydd Iesu a'i aberth drud,
 Yn llanw bryd holl ddynol ryw.

GWELED IESU.

Mae byw mewn gobaith am y dydd
 Caf roi fy maich i lawr,
 Yn llawenhau fy enaid prudd
 Yng nghanol cystudd mawr ;
 A chael ei weled fel y mae,
 Heb orchudd ar ei wedd,
 A bod yn debyg iddo byth
 Mewn dinas lawn o hedd.

TYRFA WAREDIG.

Mae tyrfa hardd eu gwedd
 Yn byw tu draw i'r beld,
 Ar aberth hedd Callaria iryn ;
 Ehinweddol yw ei glwy,
 Eu gwarth ni welwyd mwy,
 Fe'u gwisgodd hwy mewn gynau gwyn.
 Dilynw'n ninnau 'u hol,
 Nes gorffwys yn ei gôl,
 Oddiyno'n ol ni ddeuwn byth ;
 Mewn môr o ddwyfol hedd
 Cawn gyd-fwynhau y wled
 Ar siriol wedd yr Oen dilyth.

IOAN TEGID.

[Ganwyd John Jones (*Ioan Tegid*) yn nhref y Bala, Chwefrol 10, 1792. Yr oedd yn ddisgybl i Robert William y Pandy. Bu yn ysgol y Parch. D. Peter, Caerfyrddin, cyn mynd i Goleg yr Iesu, Rhydychen, yn 1814. Yn 1819 daeth yn gaplan Eglwys Crist, ac wedyn yn gurad Eglwys St. Thomas. Tra yn Rhydychen gwnae h lawer o waith dros eglwys a mynwent ac ysgol. Rhwystrewyd ef rhag mynd yn genhadwr i India gan hiraeth am Gymru. Gweithiai dros Gymru, hefyd. Golygodd argraffiad newydd o'r Testament Newydd, a buasai wedi golygu'r Beibl i gyd oni bai i'w orgraff.— oherwydd ni ddyblai ei lythrennau.—gedi storm. Cyfieithodd lyfr Esay o'r Hebraeg i'r Saesneg, a bwriadai ei gyhoeddi yn Gymraeg hefyd. Cydolygodd waith Lewis Glyn Cothi a Gwallter Mechain, ac ysgrifennodd ragymadrodd hanesyddol llafurus i'r gwaith. Hiraethai am Gymru o hyd. O'r diwedd, yn 1841, cafodd le, nid ym Meirion fel y dymunai, ond yn Nanhyfer, lle bach tlws megis yn ymnythu uwchben afon Hyfer, yn sir Benfro. Carai ei wlad a'i iaith a holl serch ei galon gynnes. Yr oedd yn wr hoffus, diddan, caredig a chroesawgar. Bu farw Mai 2, 1852; ac y mae ei fedd yn Nanhyfer.]

YMWELIAD Y BARDD.

I DREF y Bala yr aeth y bardd
 I edrych am ei dad;
 Aeth dros y tŷ, a thrwy yr ardd
 Gan wacddi, "O fy nhad!
 Nid yw ty nhad yn unrhyw fan,
 Os nad yw yn y bedd;"
 Aethai carieg iddo yn wan,
 Dywedai, "Yn y bedd!"

Pa le mae Gwen, fy anwyl Gwen,
 Fy chwaer! Pa le'r wyt ti?
 Od wyt yn fyw, anwylaf Gwen,
 O dywed, "Wele fi!"

Ni chlywaf lais, mawr yw fy mraw ;

Wyt tithau yn y bedd ?

Atebai'r garreg oedd gerllaw,

Dywedai, " Yn y bedd ! "

Fy mam ! fy mam ! anwylaf fam,

A roist im' faeth a mäg ;

O dywed im', fy mam, paham

Mae'r gadair hon yn wag ?

Gwae fi, fy mam ! fy mam ! fy mam !

Wyt tithau yn y bedd ?

Eto'r garreg ateb a'm

Hatebai : " Yn y bedd ! "

Mae'r tŷ yn dywyll drwyddo draw,

A'r ardd a'i blodau'n wyw ;

Na'm tad, na'm mam, na'm chwaer gerllaw

Ni welaf mwy yn fyw.

Maent hwy yn cysgu'n min y Llyn

Mewn gwely pridd en tri ;

Mi wylaf dro wrth feddwl hyn,

Mae hiraeth arnaf fi.

LLYN TEGID.

Awn i rodio at y Llyn,

Plant y Bala bach,

Ile y buoni ni cyn hyn,

Plant y Bala bach.

Pereiddiach yw ei ddwr na gwin,

Ac iach yr awel ar ei fin,

Ac O ! mor hyfryd yw yr hin,

Plant y Bala bach.

Awn i rodio i'r Ro Wen,

Plant y Bala bach ;

Tesawg yw yr haul uwch ben,
 Plant y Bala bach ;
 Mae'r wŷn yn chwareu ar y bryn,
 A'r gwartheg blith yn britho'r Ilyn ;
 A llon holl anian gyda hyn,
 Plant y Bala bach.

Awn i rodio i'r Cae Mawr,
 Plant y Bala bach ;
 Ar y glaswellt dros un awr,
 Plant y Bala bach ;
 Mae y briallu heddyw'n hardd!,
 Felly y rhosyn yn yr ardd,
 G! clywch bellach rybudd bardd ;
 Plant y Bala bach.

Ni chawn rodio yma'n hir,
 Plant y Bala bach ;
 Y mae hyn yn ddigon gwir,
 Plant y Bala bach ;
 Berr ein hoes,—a llawn o fraw,
 Mal oes yr wŷn yn chwareu draw ;
 Machluda'r haul,—a'r nos a ddaw,
 Plant y Bala bach.

Berr yw oes pob rhosyn gardd,
 Plant y Bala bach ;
 Berr yw oes briallu hardd,
 Plant y Bala bach :
 A berr yw einioes pob dyn byw,
 Er maint ei rwysg,—un marwol yw,
 Cyn hir fe fydd fal rhosyn gwyw ;
 Plant y Bala bach.

HIRAETH CYMRO AM EI WLAD.

Hiraeth ysywaeth y sydd—i'm dilyn

A mwy dolur beunydd ;
Ni ddaw dim yn niwedd dydd
I'r enaid, ond Meirionnydd.

Am Gymru gu a'i theg iaith,
Cwyno'r wyf lawer canwaith ;

Ond yn bennaf
I'an feddyliaf
A mylyriaf si anu Feirion,
A'i mynyddau,
A'i theg Iryniau,
Gloewiw dyrau ein gwlad dirion.


Yn lle gwenu—synnu sydd—
Trostwyl mac ciñhaf tristydd,
A wna'm bron dirion dorri,
Wlad ragorol, a'r d'ol di ;
Ac ar ol, nid siriol son,
Dethol a hen gymdeithion.
Pob dydd newydd

Y mac beunydd mwy o bennyd,
Mwy o ruddian,
A mwy uban, o ly mehyd.

A'r nos drysu o wir naws draserch
Yr wy' ; gan lunio rhyw gain lannerech
O'r wlad,—a siarad o serch—yn nefiro
OW ! honno heb Gymro i'm hannerch.

Ac os cy-gwyf ytwyl eto,
Yn brudd odiaeth yn breuddwydio
Am lawenydd, neu am lunio
Bryn a dyfryn,—yna defiro.





LEYS TRIGID O FFRIDD LLEANEUL.

" Alawiad ddrad y lounau, — inwysu yw

Min nos ar ei lannau. " IOAN TRIGID.

Ni fu fwy glwy' o fewn gwlad
 Na chur hiraeth a chariad ;
 Gwna hyll friwiau,
 Dwnf weliau
 A doluriau, dial irad !
 Draw o'r golwg drwy'r galon
 I'r eigion—dirlawr rwygiad.

Nid oes gennyf ond dwys gwynion,
 Blin wy' a gwael heb lawen galon ;
 O I mae 'n alar, heb ddymunolion ;
 (O achos hiraeth) na chysuron.

Os wy 'i ar farw am hen sir Feirion,
 Beth am floedd tros y moroedd mawrion
 A gariwyd ymaith i lefydd geirwon
 Yn llwyd odiaeth i iod yn alludion
 O dir eu gwlad drwy galedion—lawer
 O flinder ; flinder ar foel wendon.

Gwae laweroedd ! mor drwm y galarant
 Am nad oes obaith funud o seibiant
 O'n poenau—loesion, er pan hwyliasant :
 Cymru a geir ac anryw a garant,
 Yn eu golwg ; mynych gwelant—o'n hol
 Y lle dewisol a'r llu adawsant.

MARWNAD ROBERT WILLIAM.

Bardd ac Amaethwr o'r Pandy Isaf, Trefrhiwedog, ger y
 Bala, ac athraw barddonol yr awdwr. Bu farw Awst,
 1815.

O Robert, mae oer uban
 A llais trist yn nhre' a llan,
 O dy fod yma 'n dy fedd
 Yn y gweryd yn gorwedd ;

E

Ochain sydd im o'th achos
Och ! bcunydd yn nydd a nos.

Da gennyf oedd dy ganiad,
Fardd arafaidd mwynaidd mad,
Diddan y rhoddaist addysg
I rai a dderbyniai ddysg ;
A mwyach rhoist i minnau
Yn fwyn o'r ddysgeidiaeth fau,
A thra bo chwyth bych bythawl
Dy awen f' awen a fawl.

Ar ol im' fod yn rhodio
Dros ennyd o'r hyfryd fro,
Daethum wrth ryw ymdeithio
I'r Pandy i'w dy, do, do ;
Ar fwriad fel arferol
Gweled y bardd hardd i'm hol
O draw a'i ddwyllaw ar led
Yn fy ngalw am fy ngweled ;
Er disgwyl mewn hwyl am hwn,
Ow ! alar, ef ni welwn.
Och ! newydd achwyn awen
Hyll yw ein pyd, colli'n pen ;
O ! chwithdod syndod im' son,
Farw prif-fardd o Feirion.

Aethum oddiyno weithian
Yn ewybr a'm llwybr i'r Llan
At y bedd, rhyfedd yr hynt,
I'w holi am ei helynt.
Er aros yn wir oriau,
Yn hir hir nes cwbl hwyrhau,
Gan ateb nid atebodd
I mi air, Och ! marw oedd.

O trymaidd a fydd tramwy
 I'r Pandy, o'ch fi ! i mi mwy
 Ni chaf hwn, och ! fi hynny,
 O waew dwys ! o fewn ei dŷ ;
 Diamau ei fynd ymaith
 I dŷ'r bedd, diwedd ei daith,
 O'i fyned i'r nef hefyd
 Ac e' yn fardd, gwyn ei fyd.

ARDEB FY MAM.

Ardeb fy mam, fwyfam fach,
 Gwiw lun ! ni bu ei glanach ;
 Mam Elen, mam Gwen—ei gwedd !
 Rhifir hwn yn llun rhyfedd ;
 Mam fad offeiriad y Ffydd,
 A'r difyr *banker* Dafydd.

MERCHIEUANC YN Y DARFODEDICAETH.

Pan welais hi ar ben yr allt,
 Yn rhodio drwy y coed,
 Coch oedd ei gwrid dan fodrwy gwallt,
 Ac ysgafn oedd ei throed ;
 Oedd hardd o gorff, oedd deg o bryd,
 Yn Efa 'n ngolwg bardd ;
 Oedd degwch bro, oedd degwch bryd,
 Mor hynod oedd o hardd.

O graig i graig, o lwyn i lwyn,
 Y rhodiai dros y bryn,
 Gan dafu llawer golwg mwyn
 Yn llon tuag at y Llyn ;
 A'r Llyn oedd ddisglair is ei throed
 A thawel fel mewn hun,
 Lle gwelai ddelw'n nghanol coed
 A'r ddelw oedd ei llun.

Edrychai dro, ond meddwl prudd,
 Rhyw feddwl am y bedd,
 A ddaftai dristwch dros ei grudd,
 Nes newid lliw ei gwedd ;
 Dywedai,—“ A ! y cysgod draw
 A dddwg i'm henaid loes,
 E dderfydd toc, mae toun gerllaw,
 Fel hyn terfyna oes.

“ Ac megys tonn o flaen y gwynt
 Yn claddu'r cysgod draw,
 Daw angeu—daw, mae ar ei hynt,
 Yn fuan hefyd ddaw.”
 Rhy wir ei gair—anwylyd wen,
 A gwen mewn glendid moes,
 Ei gyrfa buan ddaeth i ben,
 Bu farw 'n mlodau 'i hoes.

CAN I GARIAD.

(Anacreon.)

Cariad unwaith aeth i chwareu
 Ar ei daith i blith rhosynau ;
 Ac yno 'r oedd heb wybod iddo
 Wenynen fach yn diwyd sugno.

Wrth arogl i honno'n hoew
 Y rhosyn hwn, a'r rhosyn acw ;
 Y wenynen fach a bigai
 Ben ei fys ; ac ymaith hedai.

A gwaeddodd yntau rhag ei cholyn,
 A chan y poen ag oedd yn dilyn ;
 At ei fam y gwnai brysuero,
 A'r dagrau tros ei ruddiau 'n llifo.

Gwaeddai,—“Mam! yr wyf yn marw:
 Brathwyd fi yn arw arw,
 Gan ryw sarif hedegog felen;
 A'i henw, meddent, yw gwenynen.”

Ebai Gwener,—“Os gwenynen
 A'th bigodd di mor drwm, fy machgen!
 Pa faint mwy y saethau llymion
 A blennaist ti yn llawer calon?”

MORWYNION GLAN MEIRIONNYDD.

“But what Bala is most famous for is the beauty of its women, and indeed I saw there one of the prettiest girls I ever beheld.”—Lord Lyttleton in his letter to Archibald Bower.

Morwynion glân Meirionnydd!
 Eich mawl yn anfarwawl fydd;
 Anfarwawl tra mawl ym Mon,
 A Morus yn caru Meirion.
 Eich clod a fydd beunydd byw,
 Mawredig gem aur ydyw.

Llon ynt oll, a hoen ynt hwy,
 Pob un fun sydd Fyfanwy,
 Uchelfryd, llawnserch, haelfron,
 Gwên ddibaid a llygaid llon;
 Ond gwyl er hyn ydyw gwedd
 Eu llygaid a'u holl agwedd.
 O! cymaint eu braint a'u bri,
 Miloedd yn eu canmoli.

Na henwer, mae o honynt
 Fun goeg, ail Myfanwy gynt,
 Na châr, mae'n fyddar i fardd,
 Yn anfwyn wrth awenfardd.

Yn more f' oes ym Meirion,
 A phen hurt yr hoffwn hon ;
 A phan hŷn hoffwn o'i hol
 Rhoad ei throed ar heol.
 Er ei mwyn os anfwyn fydd,
 Mor anwyl im' Meirionnydd.

Morwynion glân Meirionnydd !
 Eich mawl yn anfarwawl fydd.
 Cafwyd gwiwfeirdd i'ch cyfarch,
 Goren beirdd, a gwyr o barch ;
 A beirdd gwiwfeirdd a gyfyl
 I'ch cyfarch, trwy barch, tra byd,
 Yn eich heniaith berffiaith bur,
 Hoffusaidd heb gloff fesur.
 O enau bardd hardd yw hon,
 Dynodir, llawn deniadon ;
 Ond melusach hoffach hi,
 Y briffiaith, ond gwiw brofi
 Mor drefnus, mor felus fwyn,
 Y mera o fin morwyn.

Morwynion glân Meirionnydd !
 Eich mawl yn anfarwawl fydd.
 Yn hardd llawer bardd a'i bill
 A'ch annerch er eich ennill ;
 A minnau hyn ddymunaf
 Tros fy ngwlad, o cennad caf,
 Gael gennych chwi hoffi'ch hiaith,
 Un hynod yw ein heniaith ;
 A heniaith yw 'n iaith yn wir
 Pur hefyd os ei profir ;
 Trwyadl, hardd ei chystrawen,
 A gwir hardd ei geiriau hen.

Iaith deg,—iaith y duwiau gynt,
 Dwned Homer am danynt ;
 Iaith enaid y Celtiaid coeth
 Dynion nad oeddynt annoeth ;
 Iaith derwyddon, dyfnion dysg,
 Aur heddyw mēr eu haddysg ;
 Iaith brenhinoedd, llysoedd llawn,
 Iaith hen gyfreithiau uniawn ;
 Iaith y beirdd doeth eu hurddas
 Drwy y byd iaith uchel dras,
 Eich iaith, O ! mynweswch hi !
 A bydded rhwydd-deb iddi.
 A'i marw a gaiff ym Meirion ?
 Marw ? O, na ! na marw ym Mon.

Dacar yn uchel gwelir
 Yn lle nef, mac 'n llawn o wir ;
 Unfodd y try 'r nef wenfawr
 O'i lle i le dacar lawr ;
 Cyn marw o'r iaith heniaith hon,
 Bleth dinam, o blith dynion.

LLYN TEGID.

Bysgodwyr ! llenwch eich basgedau—'n llawn
 Llenwch o'r pysg gorau ;
 Mi o hyd sydd yn anihau
 Yn ei dirion ddyfnderau.

O Benllyn ! i'th Lyn maith o luniad—teg,
 Nid dizon fy nghaniad ;
 Dwfr iach gloew : difyrrwch gwlad,
 Yn ei li a'i alawiad.

Alawiad dwnad y tonnau,—mwyn yw
 Min nos ar ei lannau ;

Ac o'r tir gwelir yn gwau
Gwyn eleirch dan gain hwyliau.

Goror y wybrennog Aran,—ynnot
Mae'r enwog Lyn llydan ;
Cronni y lli rhwng pump Llan*
Ni elli ; rhed afon allan :

Dyfrdwyf! trwy aml blwyf, heb aml blas,—
A thrwy lawer dolfras [a thref,
Y'th hyrddir, maith y'th urddas,
Draw â mawr glod i'r môr las.

Hawddamawr, Lyn mawr Meirion,—Llyn
Neud yndid ei wendon ? [Tegid,
Drwyot, † er dyddiau'r drywon,
Y rhwyf y Dyfrdwyf ei donn.

Lle bu tref‡ dolef dyli 'r—Llyn heddyw,
Llon haddef ni welir ;
Mwyniant y pysg ei meini
'R dydd hwn, a'i hystrydoedd hir

I DANIEL SILVAN EVANS.

(Daniel Las) ar ei fynediad i Go'leg Dewi Sant.

Llonna byth o'th fodd yn Llanbedr—asgen
Ni chei ; dysg yn hyfiedr,
Ac am dy ddysg, a'th gymedr,
Mawl Dduw, nid Pawl, ac nid Pedr.

* Llanuwchllyn, Llangower, Llanecil, Llanfor, Llandderfel,
—sef pumplwy Penllyn.

† Credid fod afon Dyfrdwy yn rhedeg drwy'r llyn heb ym-
gymysgu â'i ddwr.

‡ Dywedir fod yr hen Fala wedi ei llyncu gan y llyn.

A Llewelyn, llew olwg,
A'i drem a'th gadwo rhag drwg.
Bydd isel, gochel bob gwyd,
Boddia Dduw, a bydd ddiwyd.

ATEB TEGID.*

"I mi bu cyfeillion lawer, rhywiog a chywir, yn deall cyf-
reithiau caredigrwydd, ac yn eu cadw yn fanwl; ond US ar-
benig o blith y nifer, gan ragori arnynt oll mewn cyfeillach
ataf, a ymegniâi eu blaenu belled ag y blaenynt hwy y sawl
ag oeddynt o gyffredin serch tuag ataf."

ST. CHRYSOSTOM.

Daniel ! Daniel ! paid a'th gyngor,
Nid oes achos d'wedyd rhagor ;
Byth ni wel yr India helaeth
Fi o wlad fy ngenedigaeth.

Wrth im' ddarllen dy benhillion,
Gair gwladgarwch rwygai'm dwyfron,
Fel nad allwn er dyrchafiaeth,
Adael gwlad fy ngenedigaeth.

Dy resymau ynt mor gryfion,
Maent i mi mal dur-forthwylion :
Peraist im er pob ystyriaeth,
Fyw yn ngwlad fy ngenedigaeth.

Oni basai i'th fwyn benhillion
Dreiddio draw trwy giliau'r galon,
Buaswn i, wrth bob argoeliaeth,
Yn mhell o wlad fy ngenedigaeth.

Pan ofynwyd i mi gynta,
A awn o'm gwlad i fyw i'r India,

* I Ddaniel Ddu o Geredigion, yr hwn yn 1819 a ysgrifennodd benhillion i ofyn i Degid beidio mynd i'r India Ddwyr-
ciniol.

D'wedais awn :—ond eto hiraeth
Oedd am wlad fy ngenedigaeth.

Barnu 'r oeddwn i pryd hwnnw,
Mai o Feirion gwell im' farw,
Na gweld plant yr hen waedoliaeth,
Yn gwerthu gwlad eu genedigaeth.

Gofid enbyd oedd i'm calon
Weled Cymry 'n troi yn Saeson,
Gan anghosio iaith dda odiaeth,
Iaith hen wlad eu genedigaeth.

Onid trwm fod Cymro'n gallu
Gwadu iaith ei fam-anwylgu,
Gwadu'n hyf, er ei Gymreigiaeth,
Ow ! hen wlad ei enedigaeth.

Awn i blith yr Indiaid gwylltaf,
Awn i bellder gwledydd poethaf,
Cyn y gwadwn fy nghym'dogaeth,
Neu iaith gwlad fy ngenedigaeth.

Cymro ! Cymro ! gwaeddaf allan,
Iaith dy fam pan oeddit faban
Honno cara mewn maboliaeth
Gyda gwlad dy enedigaeth.

Tra fo môr, a thra fo mynydd,
Tra fo'n llifo yr afonydd,
Na foed Cymro mewn gelyniacth
A hen wlad ei enedigaeth.

Merched Cymru, mwyn galonnau,
Glân o bryd a gwedd a geiriau ;
Cerwch iaith eich mam yn helaeth,
Hefyd gwlad eich genedigaeth.

Nid oes mwynach peth na chlywed
 Iaith Gymraeg o enau merched ;
 Y Gymraes, a fyddo famaeth,
 Cofied wlad ei genedigaeth.

Pan feddylwyf fi am Feirion,
 Bala bach a'r hen gymdeithion,
 Glynu'r wyf, mal oenyn llywaeth,
 Wrth hen wlad fy ngeredigaeth.

O ! mae f'enaid yn ymlynu
 Wrth anwylyd lân yn Nghymru ;
 Gwn na fyn, mwyn yw ei haraeth,
 Wadu gwlad ei genedigaeth.

Gyda hon mae ffyddlawn galon,
 Gyda hon mae geiriau mwynion,
 Pwy rydd imi bob cysuriaeth ?
 Hon a gwlad fy ngenedigaeth.

Gallwn fyw ar ben y mynydd,
 A byd gwael o ddydd bwy gilydd,
 Gyda hon, a'r awenyddiaeth,
 Yn hen wlad fy ngenedigaeth.

Parchu'r ydwyf ferched Saeson,
 Ni chant gennyf ciriau duon ;
 Oad pwy bia y rhagoriaeth ?
 Merched gwlad fy ngenedigaeth.

Bellach, bellach, rhaid im dewi,
 Mae fy ngalon oll yn ilonni ;
 Ymaith, ymaith, bob hudoliaeth
 A'm dwg o wlad fy ngenedigaeth.

Daniel ! Daniel ! y mae f'awen
 Wrth ei bodd yn fywlog lawen,

Am ei bod yn cael magwraeth
Eto 'ngwlad ei genedigaeth.

Aed i'r India 'r sawl a fynno,
A phob llwyddiant a'i canlyno;
Ceisiaf finnau gael bywiolaeth
Yn hen wlad fy ngenedigaeth.

Gwlad efengyl, gwlad yr awen,
Goreu gwlad o tan yr haulwen,
Gwlad yn profi gwên rhagluniaeth,
Hon yw gwlad fy ngenedigaeth.

YR IAITH GYMRAEG.*

Gelyn yr iaith Gymraeg, dywed im' pa ham
Y mynnit in' anghosio iaith ein mam?
Nid yw y Saesneg, ddyn, ond iaith er doe.
Tra mae'r Gymraeg yn iaith er dyddiau Noe.
" Y Saesneg sydd yn well, mwy perffaith iaith,"
Yn well! mwy perffaith! nid yw hyna'r flaith.
" Gwell yw'r iaith Saesneg nag un iaith o'r byd."
Taw; geiriau benthyg ei geiriau bron i gyd.
" Saesneg, boneddig yw, yn haeddu elod."
A hi mor glytiog, sut gall hynny fod?
Boneddig yw'r Gymraeg; a'i geiriau bob yr un,
Ynghyd â'u gwreiddiau, ynt eiddo'r iaith ei hun.
" Ni chlywir yn Gymraeg ond swm Ch ac Ll;
Melus yw'r Saesneg; ac mae'n swnio'n well."
O taw a'th glebar; ond it' ddal ar lais,
A si yr S y sydd o hyd yn iaith y Sais;
Cei weled yn y fan mai llawer gwell
Na si si yr S yw sain yr Ch a'r Ll.

* Ar ol clywed cyfaill o esgobaeth Llandaf yn lladdar y
iaith Gymraeg, ac yn gweddio am ei difodiad.

- " Iaith y Sais, iaith prynu a gwerthu yw."
 Ni thwyllai Sais un Cymro yn ei fyw ;
 E bryn, e werth, a'r Sais mewn unrhyw ffair,
 Mae'n deall iaith y farchnad air am air.
- " Y Cymry a'r Saeson gwel! eu bod yn un."
 Hwyl allant fod er cadw eu hiaith eu hun.
- " Nid da bod dwyiaith mewn un wlad fal hon,"
 Gad heibio'r Saesneg, dysg Gymraeg yn llon.
- " Mynnwn pe Saeson fyddai'r Cymry oll,"
 Saeson fyddant pan el eu hiaith ar goll.
- " Daw'r dydd y try y Cymry yn Saeson pur."
 Yn y dydd hwnnw y try y mēl yn sur.
- " Mae ymdrech mawr, yn wir mae llawer cais,
 I gael gan Gymro ddysgu iaith y Sais."
 Er maint yr ymdrech, ac er maint y cais,
 Cymro fydd Gymro eto ; a Sais yn Sais.
- " Mae rhai esgobion am ddiffoddi'r iaith."
 Ai yn Llandaf mae'r esgob wrth y gwaith ?
- " Nē waeth i chwi am bwy yr wyf fi'n son."
 Gwaeth fydd i'r wlad o Fynwy deg i Fon.
 Os ni chaff Cymro bregech yn y Llan
 Yn ei iaith ei hun, ymedy yn y fan ;
 A phwy nis gŵyr fod Cymro'n cafael cam,
 Pan ni phregethir iddo yn iaith ei fam ?
- " Gwyn fyd na chollai yr hen Gymry eu hiaith."
 Pe collent hi nid Cymry fyddent chwaith.
- Ord pennwn hyn o ddadl, mae yn hwyrhau,
 Gan ofyn barn un arall uwch na ni ein dau ;
 b Ty Ddewi, gwr o uchel ddawn,
 call y Gymraeg yn gywir iawn ;

Pregetha gartref, a phan y bo ar ðaith,
 I'r Cymry uniaith yn eu hanwyl iaith ;
 Mae'n wr o d'lysg, yn deall llawer aeg,
 Gofynnwn iddo ef ei feddwl am Gymraeg.

Ni fyn efe yspeilio'r Cymry hen
 O'u hanwyl iaith : mae'n ateb gyda gwên :—
 " Eich iaith, hen Gymry, denodd hi fy mryd ;
 Iaith wreiddiawl yw, parhaed tra pery'r byd.
 ' Eu iaith a gadwant,' medd Tali-sin fardd,
 ' Eu Ner a folant ' : dywediadau hardd.
 Dywedaf innau yn ol ei eiriau ef,
 Ac arnoch Gymry, disgynned bendith nef.
 Eu hiaith a gadwant, er Saesneg a phob aeg ;
 A'u Ner a folant yn yr iaith Gymraeg."

YMLADD CRESSI, A. D. 1346.

Cyflwynedig i WENYSEN GWENT.

I like the Lecke above all hearbes and flowers ;
 When first we wore the same, the field was ours ;
 The Lecke is white and greene, whereby is ment,
 That Britaines are both stout and eminent ;
 Next to the Lion, and the Unicorne,
 The Lecke's the fairest emblem that is worn.

HARLEIAN MSS.

Yn ymladd Cressi gwnaed gorchestion
 Gan y Cymry, medd hanesion ;
 O'u blaen gan boethed yr ymladdfa
 Y cwmpodd Brenin gwlad Bohemia ;
 Ar ei helm y caed tair pluen
 Mewn euraidd grib, â'r gair Ieh Dien.

Cadwgan Foel, â chalon lawen,
 Ac yn ei law grib tair pluen,
 A gerddai at Dywysog Cymru,
 Ar ol y frwydr, i'w anrhegu

Gan roddi iddo'r grib tair pluen,
A'i godidawg air Ich Dien.

Cadwgan Foel, rhaid cofio hynny,
Oedd yn gadben ar y Cymry ;
A thrwy y Cymry, nid y Saeson,
O dan Cadwgan ddewrwyd galon,
Gwenynen Gwent ! ond i elwi holi,
Yr enillwyd ymladd Cressi.

Pan ar ei fyddin bu i'r gelyn
Wneuthur ymgyrch waedlyd gyndyn,
Y Saeson oedd o bell yn gweled
Yr ymladdfa waedlyd galed ;
Gwenynen Gwent ! heb le i helpu
Yn y frwydr fechgyn Cymru.

Y maes oedd lawn o genin gwylltion,
Myrddiynau ar fyrddiynau'n dewion ;
Er mwyn gwybod gwedi'r ymdrin
Pa sawl Sais oedd yn ei fyddin,
Gwenynen Gwent ! bu i Gadwgan
Roi gorchymyn fal hwn allan,—

" Boed i'r Cymry yn fy myddin
Yn eu helmau wisgo cenin,
Yn eu helmau uwch eu talcen ;
Ond na wisged Sais geninen."
Gwenynen Gwent ! ni chatwyd dano,
Ond naw ar hugain heb ei gwisgo.

Dyma'r pryd dechreuwyd gwisgo
Y geninen gan y Cymro ;
Yn Agincourt fe'i gwisgwyd gwedi
Gan filwyr Cymru ar gais Harri.
Gwenynen Gwent ! er ymladd Cressi
Gwisgasem genin ar wyl Dewi.

Maes pais arfau Owen Tudur
 Oedd wyrdd a gwyn yn rhesi eglur ;
 Ac ar ei darian lydan heiaeth,
 Arwyddent wlad ei enedigaeth.
 Gwenynen Gwent ! O ! cofied Cymro,
 " Cas ni charo'r wlad a'i maco."

Gwisged Sais rosynau cochion
 Yn blethedig a'r rhai gwynion ;
 Gwisged Gwyddel ei feillionen,
 A'r Ysgotiaid eu hysgallen ;
 Gwenynen Gwent ! y Cymro'n llawen
 Ar wyl Dewi wisg geninen.

Gwyn a gwyrddlas yw'r genhinen,
 Bonyn gwyn, a gwerddlas ddeilen ;
 Y bonyn gwyn sydd arwydd purdeb,
 A'r ddeilen werdd o anfarwoldeb ;
 Y Cymry, o byddant bur i'w gilydd,
 A flodeuant yn dragywydd.

Cas gan clyn weled purdeb,
 Cas gan clyn weled undeb ;
 Purdeb fyddo'n nghalon Cymro,
 A chyda phurdeb undeb cryno,
 Gwenynen Gwent ! tra'r undeb fyddo
 Ni all gelyn drechu Cymro.

I bob Cymro mae'r genhinen
 Yn ei law yn llyfyr darllen ;
 Er haf a gaaf, gwynt ac oerni,
 Ei gwyn fydd wyn, a'i glas yn lesni :
 Gwenynen Gwent ! ac jelly'r Cymry,
 Er bob tywydd fyddant Gymry.





THE BALA.

"Y Bala, Salem wen
God im dy alw." HOW MYFR.

AMSER.

Tempus edax rerum.

Ovid.

Amser a ched—a ched—
 E a ched yn gynt,
 Na thonn y môr, er cynted rhed—
 Yn wyllt o flaen y gwynt.

Amser a ched—a ched
 Yn gynt na'r llong ar daith,
 Pan yn gyflymaf hi a red
 Dros donnau'r eigion llaith.

Amser a ched—a ched—
 Yn gynt na'r cryr cryf,
 Pan fo â'i esgyll braidd ar led,
 Yn disgyn ar ei bryf.

Amser a ched—mawr fy mraw—
 Na'r fellten mae yn gynt,
 Pan gwylltaf naid o'r dwyrain draw
 I'w gorllewinol hynt.

Cyflymach Amser nas gall iaith
 Adrodd gyflymed yw ;
 Ystyriwn bawb gan hynny'n gwaith
 A'r modd y dylem fyw.

Cyflymed ydym ar ein taith
 Ag Amser—onid gwir ?
 Ein cartref Tragwyddoldeb maith,
 Lle byddwn bawb cyn hir.

Amser, amser, sydd yn hedeg,
 Minnau'n myned gyd âg ef ;
 I wlad bell yr wyf yn teithio.
 Enw hon yw Teyrnas Nef,

Ysbryd Sanctaidd,
Arwain fi i ben fy nhaith.

Amser, amser, O mor gyflyni,
A diorffwys ar ei daith ;
Fy rhybuddio mac ef beunydd
Nad yw'm gyrfa yma'n faith ;
Ond tragwyddol,
Fydd yr yrfa sydd o'm blaen.

DYDD Y FARN FAWR.

Dydd barn fydd hwnnw, pan fo'r tân
Yn llosgi'r byd yn llwyr ;
A'r holl elfennau gan wir wres,
Yn toddi megys cŵyr,
Ofnadwy ddydd ! dydd dychryn braw,
Dydd mawr digofaint Duw ;
Dydd fydd i Farnwr mawr y byd
Farnu 'r meirw a'r byw.

Llais udgorn Duw, mewn nerthawl floedd,
A draidd trwy'r beddau oll ;
Cyfyl y meirw, pawb yn fyw ;
Pob un, heb un ar goll.
Ac angen'n syn yn sefyll fydd,
Pan wél ei feirw yn fyw,
Yn cael eu cludo o bob cwr
Ger bron gorseddfainc Duw.

A'r holl genhedloedd o bob oes,
O bob rhyw lwyth, ac iaith,
A fernir gan gyfiawnder pur,
Pob un yn ol ei waith.

Gwybodus fydd i'r Barnwr mawr
 Pawb oll ; pob drwg ; pob da ;
 Cyfiawn ac Hollwybodol yw,
 Cyfiawnder Ef a wna.

GALAR Y BARDD.

Wylaf dro ; tawaf wedi.—LLYWARCH HEN.

Hiraeth y sydd i'm haros
 Beunydd ; och ! yn nydd a nos ;
 Llym iawn fal blaen picell yw,
 Hawdd gweyd, yr hiraeth heddyw.
 Blinir fi yn hir gan hwn,
 Miniog yw ; ef nis mynnwn.
 Hiraeth am dad, ni'm heiriach,
 Ac am fam oedd fwyfam fach ;
 Ac am Gwen, fy chwaer wen oedd,
 Mawr y tro, marw y trioedd !
 Amddifad o dad ydwyf,
 O Dduw ! ac heb fam ydd wyf.
 Ni welaf yr hen aelwyd
 Yn llon mwy, ond llwm a llwyd.

Delwodd cyfeillion dilyth,—
 Yn iach, Bala ! bellach byth ;
 A Llyn Tegid, hyd a lled,
 Eleni ar ei laned.
 Yn iach Meirion diriondeg
 A roai im bur Gymraeg ;
 Yn iach fryniau, 'n iach fronnydd ;
 Hyd f'oes mwy im gofid fydd
 Gorfod troi, nid o'm gwi:fodd,
 O'm hen fan oedd wrth fy modd.

Wylwyd o'u rhoi ar clawr,
 Un fodd yn Nghaerfyrddin fawr ;

Elen fy chwaer yn wylaw
 Yn drwm, a'm brawd Dafydd draw.
 Nid oes neb a gollodd dad,
 Neu fam gywir, gwir gariad,
 Neu chwaer wyl, anwyl eneth,
 Yn y byd na wyla beth.

Heddwch i'w llwch lle llechant,
 Ac angylion gwynion gant
 Gwylent ef yno hefyd
 Yn y bedd, tan ddiwedd byd ;
 A'u du fedd gwarchadwent fil
 Acw yn monwent Llanycil ;
 A'u cyrff hwy dygent lle cânt
 Fyd gwell pan adgyfodant.

I bawb a barcho eu bedd
 Deued da yn y diwedd ;
 A barcho eu bedd a berchir.
 Cyn marw ceiff hwnnw oes hir.
 Sawl a blanno arno fr—
 Lysiau, ef a hwylusir
 Yn ei amcan ; buan byd !
 Ei glod ef drwy y gwledydd ;
 A phan fo marw hwnnw 'n hen,
 A'i roi yn y ddaecaren,
 Ei fedd ef un fodd a fo
 A gwyrdd ddail teg i'w urddo.

SIARL WYN O BENLLYN.

[Ganwyd Charles Saunderson (*Siarl Wyn o Benllyn*) yn y Bala yn 1819. Un o deulu y Robert Saunderson, ddacthai i'r Bala i argraffu ar anogaeth Mr. Charles oedd. Gwr ieuanc hawddgar ac athrylithgar ydoedd.—

"All cwrelar yr eira gwyn oedd rhosyn tlws dy rudd,
Dy ddawn a gadd walit aur yn do, O nid anghofio fydd."

Bu farw o'r geri marwol, yn New Orleans, Hydref 24, 1832.]

IOAN TEGID.

IOAN, wr o iawn araith,
Golud ac urdd gwlad ac iaith
Cymru hen, y Cymro hardd,
A gwiw erfai gywirfardd ;
Nid er mawl, na d' aur melyn,
Y gwas hardd, y gweuais hyn ;
Ond o union fron ddi frad,
Sy'n curo o swyn cariad :
Cariad i fy hen wlad hon,
I Degid a'm cym'dogion ;
A thra pery hynny'n hon,
Gyfaill, cei hybarch gofion :
Cefnogydd a llywydd llên
A fuost i fy awen ;
Yn hof iardd i'm hyfforddi,
A thra mwyn athraw i mi :
Gwna'm mant, am y mwyniant mawr,
Dy foli hyd fy clawr.
Heddyw pwy sy'n twy haeddawl,
A phwy mwy a gaiff y mawl ?
Mwy gwr nid oes am grouni dysg.
A threiddiawl ieithwr hdydysg :

Iaith ei wlad a'i theleidion,
 A wyr y bardd, ie o'r bôn :
 Hoffi yr wyf ei gân ffraeth,
 A'i bêr ddawn mewn barddoniaeth.

Ond, Ow ! 'r modd dwedir i mi.
 'N gadarn, fod Saeson gwedi
 Dwyn ei awen fwyn o fawl,
 Mewn rhyw fodd, mae'n rhyfeddawl.

Os gwir yr iasawg ciriau,
 Eirian ddyn, gyrr air neu ddau,
 Mewn mawr fryc i'n hyspysu,
 Ioan Fardd, os hynny fu :
 Ond os ydwyf, was hoewdeg,
 Yn berchen ar d' awen deg ;
 Os oes ymhlith y Saeson,
 Gariad at yr hen-wlad hon,
 Gyrr bennill neu bill bellach,
 Oddi yna i'r Bala bach.

Ai bras oes mewn bro Saeson,
 Sy'n fwy mad na'r hen-wlad hon ?
 Neu Rydychain, gain ei gwedd,
 Na gogoniant gwig Gwynedd ?
 Mae y llwyni meillionog,
 Lle nytha brân, lle cân côg ;
 A'i rhanedd wawr hynod,
 A'r Aran a'r Bala'n bod ;
 Yr un y Llyn er ein llenni,
 'R un hefyd Tegid wyt ti ?
 Yn wir mae'n rhaid it' ai naill
 Eu hanghofio, fy nghyfaill,
 Neu o ddig, neu ddiogi,
 Fwyn ŵr, ein hanghofio ni ;
 Na roddit ryw arwyddion
 O'th fri hardd i'th wiw Iro hon.

Nid o ddig neu gynfigen
 Y gyrrais i'r geiriau sen ;
 Ond o gariad i gywrain
 Ddawn eu dy farddoni cain.
 Tawaf—gobeithiaf ca'i beth
 O'th hoew-blawdd farddwaith hybleth.
 Byd hyfryd boed a hoew-fri,
 A gwynfyd, Tegid, i ti :
 Heb ddolur, heb ddu elyn,
 A siriol oes, medd Siarl Wyn.

YSGOL RAD Y BALA.

A fyfyrwyd wrth ymweled ag Ysgol Rad y Bala, yn ol marwolaeth fy hen athraw, a diffuant gyfaill, Mr. Evan Harries.

Mil henffych iti, orhoffusaf dud !
 Anwylach wyt nag unman yn y byd !
 Wyt anwyl im, wrth gofio'r athraw eu
 A'm dysgai ynnot—yr ieuencyd lu
 O'th gylch chwareuai, 'n nyddiau llon fy rwyf,
 Fy ysgafn fron, ddieithr i boen a chlwyf.
 Mae pob rhyw llwyn, a phob rhyw garreg bron,
 Yn dwyn i'm cof ryw adgosiadau llon,
 Neu anhaf gas—neu ryw chwara'yddiaeth fwyn
 Y digwyddiadau fu yng nghil y llwyn.
 Hyn oll aeth heibio—'n awr eu coffa fydd
 Yn llenwi'm bron â pharchedigaeth prudd.
 Y wig oedd wech, delwedig ydyw'n awr,
 Yr ardd oedd hardd, anurddawl yw ci gwawr,
 A llaw'r gormeilydd Amser, amlwg yw,
 Ar oll o'th gylch, ar bob planhigyn gwyw ;
 Ond uwch pob dim sydd yn anurddo'th wedd
 Y mwyaf oll, fod Harries yn y bedd.

Un athraw mwynach, gyfaill purach, gwn
 Ni cheid o fewn yr holl fydyssawd crwn,
 Mor wych cryfhai bob amgyffrediad gwan,
 Meithrinai ddeall ei ddisgyblion mân :
 Ond angau certh, gormesydd dynol ha^l,
 A'i torrodd ymaith—Ow ! fy athraw mād !
 Dy gollu oedd yn gollod mawr i mi,
 Ond ennill mawr ac elw yw i ti.

Pa le mae'm cyd 'sgolheigion oll i gyd ?
 Nid dau o'r gloch a'u cyrha'n awr ynghyd
 Gofynnais,—“ P'le mae hwn oedd lon ei wedd ?”
 “ Er's amser maith mae ef y'ngwaelod bedd.”
 “ Pa le mae hwn a hwn, oedd un di goll ?”
 “ Y tad fu farw, a'r teulu chwalwyd oll.”
 Fy hen gyfeillion gwasgaredig ynt,
 Prin y mae tri, y lle bu degau gynt.
 Yr athraw gwiw, a'r ysgolheigion oll,
 O'r hen drigfannau aethant oll ar goll.
 Nid sefydledig ym, ond ar ein taith,
 Ein cartref ydyw'r tragwyddoldeb maith.

BEDD JOHN EVANS.

A gyfansoddwyd ym Mynwent Llanecil, Ionawr, 1829,
 wrth weled be'drod yr hybarchus a'r duwiol John Evans,
 gynt o'r Bala, heb un bedd-faen arno.*

Pan y dychwel rhyw ariannog
 Wr galluog balch i'r llawr,
 Rhoddir mynor faen ar dlercheg
 Ar ei fedd, ya golofn lawr ;
 Arni cerfir ei urdd-enwau,
 Ei holl achau, nghyd a'i foes,
 A chanmoliaeth am rinweddau
 Na chyflawnodd hyd ei oes.

* Y mae carreg yn awr wedi ei gosod wrth ben beddrod yr
 henafgw'r parchedig hwn.





LLAN TEGID YR ARAN.

(*Old Welsh idylls from S. Maurice Jones.*)

The Uwchlyu gyflin gothom—o bar ddawn

Werdlysg atirawon,

Woddlidys, by a dyddlon,

Orechaw hysg, ar ael bron.

D. JONES © Drefnw, 1778.

Yma gorwedd un mwy 'i urddas
 Na bon'ddigion beilchion byd,
 Cyd-etifedd Crist mewn teyrnas
 Nefol, gaed trwy aberth drud :
 Yma'n gorwedd heb un garreg
 Ar ei feddod yn y Ifan :
 Gellir hyn—a diin ychwaneg
 Er cof a pharch i'w farwol fan.

Ei enw'n unig fydd yn ddigon,
 Ofer cerfio 'i barch a'i glod,
 Cerfiwyd hynny ar boð calon
 A'i ha-lwaenai is y rhod :
 Nid eill carreg byth m' r cynnwys
 Ei rinweddau tra 'n y byd,
 Na cheffier ond ei enw gwiwlwys,
 Hwn a'i cynnwys oll i gyd.

Gwn fod llawer yn chwenychu
 Gweld ei fedd-faen, o'r rhai fu
 Cyd ag ef yn cyd-ddyrchafu
 Baner waedlyd Calfari ;
 Fel y gallai gyd â'i ddagrau
 Wlychu a golchi godre hon,
 Er parch mwyn i'w deg rinweddau,
 Ac ysgafnu'i lwythawg fron.

Ac fe allai aml lencyn
 Gadd ei gyngor tadol ef,
 I ado'r ffordd oedd yn ei dilyn,
 Ac i ddilyn llwybrau nef ;
 Ga'i ddiddanwch mawr wrth wylo,
 Ac wrth roddi arni 'i bwys ;
 Wrth ei gweled wnae adgofio
 Ei gynghorion tirion dwys.

HIRAETH

Bum dan amryw boenau o ddolur meddylliau,
 A lliidiog drallodau a nwydau llawn aeth ;
 Ni chefais er hynny un och i'm gwanychu,
 Na dim im' amharu fal hiraeth.

Mae hwnnw yn glynu wrth f' esgyrn a'm gwasgu
 Mae yn fy nirdynu a'm llethu i'r llawr ;
 Dy gwmi, wr gwiplon, rydd adwedd i'r galon,
 Ped fac fy sfrind tirion ond teirawr.

DOLI.

Tôn: "MORWYNION GLAN MEIRIONNYDD.

Hardd ar fore haf-ddydd teg
 Yw'r gwiwdeg haul wrth godi,
 Gwych ymhlith y blodau gwiw
 Yw hardd oleuliw'r lili ;
 Harddaf ar y ddaear hon
 Yw du-lon lygad Doli.

Anwyl ydyw bydio 'n wych
 A llonwych gyfaill heini ;
 Anwyl perl fo'n hardd ei liw,
 Rhai anwyl yw'm rhieni ;
 Ond na dim y'Nghymru bach,
 Anwylach yw fy Noli.

Mwyn yw'r eos ber ei llais,
 Hÿfrydlais ddifyr odli,
 Cór o offer cerdd a rydd
 Ryw lawr ddywenydd iuni ;
 Mwynach na'r holl fwsig llyn,
 Neu'r delyn, yw llais Doli.

Diddan yw cael tân mewn ty,
 Mae'n glyd mewn du galedi ;

Hoffus yw cael gwely gwych,
 Rhag hirnych rhew ac oerni ;
 Da i minnau rhag pob nam,
 Fy nwyllaw am fy Noli.

Hyfryd yw i'r corff fo'n freg
 Gael adeg o'i galedi ;
 Mwyn ar daith yw'r ty neu'r llwyn
 Rydd fwyn orweddfa inni ;
 Minnau garaf roi'm pen llesg
 Rhwng dilesg ddwyfron Doli.

Melus ydyw'r mêl a dyn
 Y gwenyn gwibiog heini ;
 Melus yw'r Tokay i'r min,
 Neu flasus win Pwrgwndi ;
 Mil melusach, yn ddiau,
 Yw diliau cusan Doli.

Gwn fod llawer lodes lân
 O'r Aran i'r Eryri ;
 Diarhebol yw'r sir hon
 Am lon forwynion heini ;
 Morwyn deg ym Meirion dir
 Ni welir fel fy Noli.

TY FY NHAD.

Er byw mewn arhydedd, digonedd deg wawr,
 A bod im' o roddion, neu foddion, ran fawr,
 Gwell ydyw byw'n isel mewn rhyw gwr o'm
 [gwlad,
 Na thrigo mewn palas—gwell bwthyn fy nhad.
 Ty fy nhad—Ty fy nhad,
 Di-ail Ty fy nhad.

Er bod aur ac urddas ym mhalas gwr mawr,
 A gwych addurniadau, a gemau teg wawr,
 Mae gem mwy disgleirwch, hyf eurwch hardd
[fâd,
 A hon yw boddlonrwydd ym mhwthyn fy nhad.
Tŷ fy nhad—Tŷ fy nhad,
Di-ail Tŷ fy nhad.

Boed i mi gael trigo 'n hyf yno hyd fedd,
 Yn foddlon mewn digon, a hoewlon mewn hedd
 A boed im anadlu fy olai yn fâd,
 Lle anadlais gyntaf, sef bwthyn fy nhad.
Tŷ fy nhad—Tŷ fy nhad,
Di-ail Tŷ fy nhad.

GADAEL GWLAD.

Ary dôn "Ar Hyd y Nos."

Yn fy mron y mae trychineb,
 Wrth adaw 'm gwlad,
 Rhed afonydd hyd fy wyneb,
 Wrth adaw 'm gwlad,
 Gadael rhiaint hofi caruaidd,
 Gadael hen gyfeillion mwynaidd,
 Gadael gwlad yr awen lathraidd,
 Wrth adaw 'm gwlad.

Gadael gwlad y telynorion,
 Trwm yw i mi,
 Gadael glân rianod Meirion,
 Trwm yw imi,
 Gadael Gwenfron, gadael Gwyndyd,
 Gadael pob diddanwch hyfryd,
 Yn eu lle cael môr terfysglyd,
 Trwm yw i mi.

TEGIDON.

[Ganwyd John Phillips (*Tegidon*) yn y Bala, Ebrill 12, 1810; prentisiwyd ef yn argraffydd gyda Mr. Saunderson; yna bu yn arolygu swyddfa y Parch. John Parry, o Gaer; tua 1850 symudodd i Borthmadog i arolygu swyddfa cwmni llechau, ac yno bu farw, Mai 28, 1877. "Yr oedd ei fywyd," ebe Glaslyn, "yn llawn o beroriaeth, a diweddodd fel y diweddid anthem, mewn amen dyner a dwys." Rhodd ef i hwno ym mynwent Llanecil, dan yw y gorllewin—"Dyma orweddan y talentog Tegidon." Gwel *Cymru* VI. 111.

SIARL WYN.

CH! fyd y gofidiau! man cerdda yr angau,
A'i eirf yn dryloewon, a'i saethau yn llym.
O'i flaen yn yr ymdrech gwroniaid yn ddiaw

A gwmpant y'nghanol eu dewrder a'u grym:
Pa le mae cyfeillion llon oriau fy mabiaeth.

A hoffwn eu cwmni ym mhob rhyw chwara'ydd-
[iaeth?

Yfasant o chwerwon wyllt ffrydiau marwolaeth,
Diang'sant gan gyfrif y byd yma'n ddim.

Ow Siarl! mae y newydd am awr dy farwolaeth
Yn gwneuthur i'm calon och'neidio yn bridd;

A gwelod y llwybrau gerddasom ni ganwaith,
Yn dwyn rhyw adgofion i'm meddwl y sydd;

Doe yn ein hafiaeth yn llon ein hwynebau,
Heddyw ar wahan gan rwygiad yr angau;

Doe yr adroddai ei gyfansoddiadau.

Heddyw yn ddistaw mewn gwely o bridd.

Nid dawn na ffraethineb, na glendid wynepryd,

All gadw draw angau, llymfniawg ei gledd;
Pe gall'sent ni fyddai fy nghyfaill siriolbryd

Yn llechu yn dawel yn ister y bedd.

Pan ydoedd enwogrwydd, a pharch, ac anrhyd-
 Ar sin ei geroni, a rhoi iddo fawredd, [edd,
 Marwolaeth a'i dygai o'n mynwes i'r duffedd,
 Yn rhwym aeth i'w garchar, newidiwyd ei
 [wedd.

Cynghanedd ei awen a sôn De la Plata,
 Wrth olchi ei glannau oedd gymysg ber gân,
 Y'nghanol gwlad estron e gofiai fro Gwalia,
 A'i serch yn ei fynwes enynnai yn dân :
 Meib Cymru a garant hoff sain ei ganiadau,
 A chân ei benhillion adseinia ein bryniau ;
 Ond, O ! yn ein calon mae dwysion riddfannau,
 Na chawsai ei feddied o iewn ein bro lân.

Hiraethai am gaffael gorweddfan yn dawel,
 Mewn mynwent y'nghanol ei frodyr ei hun ;
 Ond hyn ni oddefai yr Arglwydd goruchel,
 Sy â'i ffyrdd yn y cwmwl uwch deall pob dyn :
 Yn lle caffael marw yn nhŷ ei rieni,
 Yn Orleans Newydd y bu yn ymboeni,
 Dan ddyfnion arteithiau dychrynlyd glwyr geri,
 Dibenodd ei yrfa mewn gwaew a gwŷn.

O estron ! O estron ! ein serch a'th dynggheda,
 I lwch ein bardd ieuanc boed iti roi parch,
 O fewn i dy randir yn dawel y llecha,
 Yn fud ac yn llonydd dan gaead ei arch :
 Ei ben a orlenwid ag amlder o ddoniau—
 Diferai gwin awen oddi ar ei welusau.
 Wrth brofi o hono llon oedd ein meddyliau—
 O estron ! O estron ! gwna erom ein harch.

Yn iach i Siarl enwog—pan blethai serchawg-
 [rwydd,
 Ei llawryf o amgylch ei ruddiau yn iad,

Ow! Ow! a anhuddwyd y'ngwlad y distaw-
[rwydd,

Heb gael ei ddymuniad ym mwthyn ei dad.
Fy nghobaith a ddywed fod swm ei awenydd
Ar lan afon bywyd yn seinio'n fwy celfydd,
Na phan y sibrydai ei ganau ar lennydd
La Plata, na Dyfrdwy, na nentydd ei wlad.

SUL CYMUNDEB YN Y BALA.

Mae'r bregeth bwysigawl yn awr wedi gorffen,—
Desgrifiad cyffrous o'r Iesu ar groesbren,
Y cariad anfeidrol, yr iawn mawr a roddwyd,
A'r llwybr i gymod â Duw a agorwyd;
Elias,*fel angel yng nghanol y nesoedd,
Yn traethu holl gyngor Jehofa i'r lluoedd.

Y dorf a gydunant mewn emyn ddiolchus,
Ar dôn fechan wledig, ond eto soniarus.

Fe hulis y bwrdd, darllenir rhyw gyfran
Gan wr ysgolheigaidd† a golwg fwyneiddlan;
Ac yna ymasha Elias yn ddichlyn,
Yn bwylllog, ac araf, yn llestri y cymun.
Ei ciriau ddiferant fel gwinoedd yn felus;
A hongia y dyrla yn fud wrth ei wefus.
Hen wladwyr mynyddig yn seio cyfamod
Yn aberth y groes wrth allor y Duwod;
Hen wŷr lled fethiantus, am dro yn anghosio
Eu gwendid cynhwynol, ymron iawn a neidio;
Hen wragedd oeddrannus adfywient yr awrhon,
Gan ollwng eu lleisiau fel heinyf wryfon;
Yn ol ac ymlaen ymysgwyd wna'r dyrfa,

* Y Parch. John Elias o Fôn.

† Y Parch. Simon Lloyd, B.A., awdur yr *Amseryddiaeth*.

Fel gwenith teg, llawndwf, dan awel cynhaea.
 Byrddiad ar fyrddiad yn dirif ymwasgu,
 Dynion drwy'u gilydd yn gwau heb ddyrysu;
 Un rhau newydd dderbyn y nefol arwyddion,
 A rhan yn ymwithio i'w derbyn yn dirion;
 Dwyllaw ar led at ddwyllaw'r gweinidog,
 Un meddwl mawr, eang, drwy'r dyrfa amrywiog;
 Llygaid y dorf ar Elias sefydla,
 A'u fydd yn addoli ar lethrau Calfaria.

Fe borthodd y dorf,—mae rhai ar eu gliniau,
 Ac ereill yn canu nefolaidd bêr ciriau,
 Yn wylu, yn canu, hyd ddengwaith yn dyblu;
 A'u llaw ar eu cern, a'u llygaid i fyny;
 Hen bennill melusbêr* a ddenodd eu hysbryd
 Mewn moment i rywle i ardal y gwynfyd,—

"Gwyek sain

Sydd eto am y goron ddairin,

Yr hoelion dur a'r bicell fain,

Wrth gofio rhain caiff uffern glwy;

Cadwynau tynion aeth yn rhydd.

Fe gaed y dydd, Hosanna mwy."

DINISTR CARTREF.

"Cartref!" O enw fu'n swynol flynnyddau,

"Cartref," lle tyfai sirioldeb a hedd;

Cartref, ysbeiliwyd mewn munud o'i dlysnï,

Mae'n oer fel y graig, mae'n ddu fel y bedd.

"Y nefoedd," fy nghyfaill, O ardal fendigaid,

Lle dwedi mae bywyd, a gwyntyd, a hoen;

* Pennill o waith y Parch. John Roberts, Llangwm (1753—1834).



"Castell Goronwy llefr."

Y BALA.

"Fel yr amgylchid Salem draw
Ar hen fynyddoedd ar bob llaw."

GLAN ALUN.

Cartref fy mhlant, y tlyision anwyliaid,
Lle gorffwys fy mbriod uwch gwendid a phoen.

Do, gwelais rosynau yn agor, yn gwywo,
Do gwelais y donn yn ymdorri ar y graig ;
'Rwyf heno o'r herwydd a'm calon ar ddryllio,
Y beddrod yw gwely fy mhlant a fy ngwraig.

Ti ddwedi fod *bywyd* yn rhywle yn agos,
Mi dybiwn mai angau yw porthor y nef ;
Rhof fy llaw dan fy mhen yn ddistaw i aros,
Wrth drothwy fy Nhad, a'm nerthu wna Ef.

HEDDWCH FEL YR AFON.

Ar fin Iorrdonen ddofn a gwyllt
Eisteddaf mewn gofdiau,
Ar godiad haul mac ing fel byllt
Gan angau i'r pellterau.
Rhacadrau ar racadrau'n chwyrn
A gwynt i wynt yn ateb ;
A sw'n fel pe bai mil o gyrn
Yn hafnau tragwyddoldeb ;
Fe godai'r dwr, eis innau'n wan
Gan ofn yn llethu 'nghalon ;
Ond clywais lais o'r arall lan,—
Mae heddwch fel yr afon.

Ymgodais i groesawu'r sain,
'Roedd sw'n telynaidd iddo,
A gwelwn wr mewn gwisgoedd cain,
Ac aethum tuag ato ;
Gofynnais iddo,—Glywsoch chwi
Ryw sw'n yn nhorr yr awel ?

“ O do, rhyw air a gipiodd hi
 O donau'r deml dawel ;
 Mae corau fil a miloedd myrdd
 Ar lethrau Mynydd Seion,
 Yn bloeddio drwy y coedydd gwyrdd,—
“ Mae heddwch fel yr afon.”

A ga 'nychymyg groesi'r dŵr
 I hyfryd fro y nefoedd,
 I weld y Bugail, uchel wr,
 Yn ddwyn ei ddiadelloedd
 At y flynhonnau bywiol, llawn,
 Ar fryniau tragwyddoldeb
 Heb boen na lludded fore a nawn,
 Na deigrin ar eu hwyneb ?
 Caf weld, 'rwy'n siwr, ar fryn neu bant,
 Ymysg y disglair luon,
 Fy mhriod hofi, a'm hanwyl blanc,
A'u heddwch fel yr afon.

Wyf wan, wyf isel, ac wyf brudd,
 Wyf unig mewn trallodion,
 Unigrwydd sydd yn gwlychu ngrudd,
 Unigrwydd dyrr fy nghalon ;
 O na chawn eto godi 'mhen
 O'r trallod blin i fyny,
 O cha chawn weled eddi wen
 Wrth odreu'r cwmwl pygddu ;
 I leddfu 'mhoen, a'm gwncud yn iach,
 Ac i lonyddu 'nghalon,
 O na chawn ddafnau bychain bach
O'r heddwch fel yr afon.

IOAN DYFRDWY.

[Y mae hanes y bardd ieuanc hwn ar garreg ei fedd yn
Llanecil fel hyn:—

ER
COFFADWRIAETH
AM

JOHN PAGE,—*Ioan Dyfrdwy*,—B. B. D.

ac un o sylfaenywyr
CYMDEITHAS LENYDDOL MEIRION,
yr hwn a fu farw
Mehesfn 17eg, 1852,
Yn 20 mlwydd
oed.

Perchen yr awen wis rydd—oedd Ioan
O ddiwyd efrydydd;
Egmin cryf ei gynnydd,
Hunai ar ddiathanner dydd.

Blodau heirdd a heirdd heb us—yr awel
A'r ywen bruddglwyfus
Addolant yn dorf ddihys
Enw ei lwch ger Beuno lys.

Diau hynotach daw Ioan eto,
Yn wr heb anaf, o hen fr Beuno;
Yn derydd esgyn wedi ei hardd wisgo
A mawredd Salem i urddas elio,
Cerdd i w Frawd nol cyrhaedd y fro—uwch angen,
A'r bŵr ddawn aiddien heb arwydd beneiddio.
DOCHAN FARD.]

WEDI'R CWYMP.

(Dyfyniad o'r gân "CREFYDD.")

YR awel a ddywed o frigau y llwyni,—
"Ti dorraist y gyfraith, a marw a fyddi;"
Mae lithau Euphrates o'i cheulan yn galw,—
"Bwytaist y gwenwyn, a thi fyddi marw."
Mae tannau y nefoedd yn awr wedi sefyll,

Gresynant dros Eden a'r mawr godwm erchyll.
 Ond, yn y distawrwydd yng ngwlad y goleuni,
 Tebygaf y gwelaf y Tad yn cyfodi,
 Gan alw cerubiaid, seraffiaid, angylion,
 Fel y cydlyngynghorai yr holl urddasolion ;
 Dywedai ar gyhoedd,—“ Dynolryw bechasant,
 A minnau heb aberth nis rhoddaf fardeuant ;
 Dywedwch, O dyrfa sancteiddlawm a hawddgar,
 Pa fodd y gwneir cymod rhwng nefoedd a daear.”
 Ni chlywaf un ateb, ni welaf neb digon,
 Nid ydyw eu heinioes yn eiddo'r angylion ;
 Cyfiawnder y Duwdod sydd wedi ei ddiglloni
 Oherwydd i'r gyfraith gan ddyngael ei thorri.
 Ond gwelaf ail berson y Drindod yn codi, —
 Gan ddweyd,—Fy anwyf-Dad, ni fentraf, os

[mynni ;

I'r ddaear disgynnaf, a gwisgaf ddynoliaeth,
 A iawn i Ti dalaf drwy ddioddef marwolaeth ;
 A hefyd disgynnaf i ddvnder y beddrod.
 Er trefnu sfordd gyfiawn i faddeu pob pechod,
 Mi fynnaf ogoniant i'th enw'n dragwyddol
 O rasol achubiad eneidiau anfarwol.”
 Ah ! Dacw lawenydd anrhaethol yn codi,
 Wrth ganfod y wawr-dydd ysbrydol yn torri ;
 Mae'r haul yn pelydru, a'r t'willwch yn cilio,
 A thannau y nefoedd drachefn yn adseinio ;
 Mor felus chwareuant eu tonau newyddion,
 Moliannu y Duwdod am achub plant dynion ;
 Dechreuwyd ar donau na dderydd eu canu
 Tra byddo y Duwdod ei hun yn hanfodi.
 A hwythau, ellyllon y pydew diwaclod,
 Siomedig y sfoant, yn ddirfawr eu syndod,
 Wrth weled y Drindod yn estyn trugaredd
 I ddyng pechadurus drwy taddeu ei gamwedd.

ROGER EDWARDS.

[Ganwyd Roger Edwards yn y Bala yn 1811. Bu farw, wedi bywyd o weithio ac arwain, yn y Wyddgrug, yn 1886. Meddai athrylith i gynllunio pethau newyddion, a nerth i weithio'n ddygn. Efe, yn ei *Cronicle yr Oes*, gychwynodd lenyddiaeth boliticaidd Cymru'r dyddiau hyn; yn 1845, gyda Dr. Lewis Edwards, cychwynodd y *Traethodydd*; yn 1846 daeth yn olygydd y *Drysorfa*. Yr oedd a fyno pobl y Bala lawer a'r *Gemiog-werth*, gyhoeddid yn Ninbych o 1847 i 1851; ynddi tarawyd tant hollol newydd, fwy naturiol a byw, yn y ddwy gân sy'n dilyn.]

YR AFONIG AR EI THAITH.

A FONIG fechan, fywiog, fad,
 Pa le'r ai di?
 " Af adref, adref at fy nhad;
 Môr, môr i mi!"
 Mae'r rhwystrau'n fawr, mae'r daith yn hir,
 Mae'r ffordd trwy lawer diffaeth dir;
 Gwell iti oedi'r hynt, yn wir;
 O aros di!
 " Na, na, nid all nac anial maith,
 Nac unrhwfryn na bro ychwaith,
 Fy rhwystro i gyrraedd pen fy nhaith:—
 Môr, môr i mi!"

Afonig fechan, aros! Paid
 A choledd twyll;
 Fe all mai troi yn ol fydd raid—
 O cymer bwyll;
 O'th flaen mae'r mynydd uchel, serth,
 A'i ddringo ef nis gall dy nerth,
 I'r yrfa hon beth wyt yn werth?
 O aros di!

" Er mynydd mawr ni lwfrhaf,
Ond heibio iddo yn ddiddig af—
Môr, môr i mi ! "

Afonig fechan, yma yn awr
Da yw dy fod ;
A pham y mae am gefnfor mawr
Dy ddyfal nôd ?

Mae'th cisieu ar y felin draw,
Ac ar y weithfa wlan gerllaw ;
Cyd-ddeisyf wnant yn daer ddidaw,
O aros di.

" Gweinyddaf arnynt wrth fynd trwy,
Ac ar laweroedd gyda hwy,
Er hyn fy llef a fydd fwy, fwy,
Môr, môr i mi ! "

Afonig fechan, peraidd sawr
Sydd ar dy lan,
Ac mae'r planhigion gwyrdd eu gwawr
Yn harddu'r fan ;

Mae'r helyg ystwyth uwch dy donn,
A'r blodau holl o'th gylch yn llon,
Yn dweyd, gan bwysu ar dy fron—
O aros di !

" Cant fy nifyrru ar fy nhaith,
Ond myned rhagof fydd fy ngwaith,
Nes myned adref dyma'm iaith,—
Môr, mor i mi ! "

Afonig fechan, hardd i ni
Dy wedd yn awr ;
Ond beth a ddaw o honot ti
Mewn dyfnder mawr ?

Mae'r eigion yn ddirgelwch prudd ;
 Dychrynnu rhag ei geudod cudd,
 Ac na ddos iddo mor ddiludd ;
 O aros di !
 " Gwir fod y dwfn yn ddieithr wlad,
 Ond hyn a wn—mae'n gartre' nhad ;
 Caf fy nghroesawu yn ddi-frac,
 Môr, môr i mi ! "

YR ASYN ANFODDOG.

Yn ei gut yn nhrymder gacaf
 Cwyno'n dost wnai asyn llwyd,—
 " Gennyf mae y llety oeraf,
 A rhyw wreiddiach sydd yn fwyd ;
 O na ddeuai gwanwyn bellach,
 Cysur lyddai hynny'n wir ;
 Mi gawn wedyn hin dynerach
 A chegidiau o laswellt ir."

Daeth y gwanwyn a'i gysuron,
 Do, a'i lafer yn un wedd ;
 Cwyna'r asyn gan orchwylion
 Ar y meusydd yn ddi-hedd,—
 " Gyrrir fi yn awr yn erwin,
 Ac esmwythder ddim ni chaf ;
 Cefais ddigon ar y gwanwyn,
 O ra ddeuai hyfryd haf ! "

Daeth yr haf ; a ydyw'r asyn
 Wedi cassael dyddiau gwell ?
 Na, nid yw foddlonach ronyd,
 Hawddfyd sydd od'diwrtho ymhell ;
 Achwyn mae a'r nâd druanaf,—
 " Och y gwaith, ac Och y gwres,

O na ddeuai y cynhaeaf
Dyna dymor llawn er lles."

Daeth yr hydref, ond siomedig

Ydyw'r asyn dan ei lwyth,

"Druan oedd fy nghefn blinedig,

Wedi'r haf rhaid cludo ei sfrwyth,

Cyrchu tanwydd erbyn gaeaf

Cario mawn a chario coed ;

Och ! yn nhymor y cynhaeaf

Blinach ydwyf nag crioed."

Wedi troedio cylch y flwyddyn,

Mewn anghysur dwys o hyd,—

"Gwelaf bellaach," medd yr asyn,

"Nad mewn tymor mae gwyn fyf ;

Yn lle achwyn ar dymhorau,

Fel y maent cymeraf hwy ;

Dyna fel y daw hi oreu,

Felly byddaf ddiddig mwy."



IOAN PEDR.

[Ganwyd John Peters yn y Bala, Ebrill 10, 1833. Bu gyda'i dad yn saer inclinau, a gweithiodd yn galed i gael addysg. Ymbhoffai yn enwedig mewn llysieueg, daeareg, a hynafiaethau. Yn 1859 daeth yn athro i Coleg yr Anibynwyr yn y Bala. Yr oedd yn hoff iawn gan ei ddisgyblion. Bu farw Ion. 17, 1877; hŷn yn Llanccil.]

DAEAREG.

(Ovid, *Metamorphoses*. Liber xv.)

O'R llydan fôr y ganwyd sychdir gwyrdd,
 O hyn yn awr ceir sier brofion fyrdd;
 Yn wasgaredig ceir (pa brawf sydd well?)
 Y cregyn môr oddiwrth y môr ymhell;
 A chafwyd rhydlyd angor hen cyn hyn,
 Un trwm a mawr, ar uchaf gopa'r bryn;
 O'r dyfnion bantiau cilai'r dŵr ar daith,
 A ffurfiid yno heirdd ddyffrynoedd maith;
 Yr uchel fynydd lyncid gan y môr,
 Y safnwrth gymoedd lyncent eang fôr;
 A'r gwlybion gorsydd, gan angerddol dân,
 A droid yn sychdir cras o dywod mân.

MYFYRWYR Y COLEGAU.

[Bu'r Bala yn gartref i golegau gweinigogion yr Anibynwyr a'r Methodistiaid er ddeddiau Lewis Edwards a Michael D. Jones. Y mae Coleg y Methodistiaid yno eto. Tynnodd y colegau hyn wrth fel John Parry, Ap Vychan, Ioan Pedr Thomas Lewis, Thomas Charles Edwards, a Hugh Williams, i fyw i'r Bala. Tynasant hefyd lu o efrydwy'r, llawer o honynt yn feirdd da. Y mae llawer o'r rhain, ac o bregethwyr ddeuai ar bererindod i'r fro, wedi canu i'r Bala.

Detholir dwy gân; un ddigrif ddireidus, ac un ddwys urddsol. Awdwr y gân ddireidus yw Glan Alon. Ganwyd ef, sef Thomas Jones, yn y Wyddgrug yn 1811, bu farw yn 1866. Yr oedd yn llenor gwych, ac y mae ei lyfrau,—“Fy Chwaer,” a'r “Ehediadau Byrion”—yn adnabyddus iawn. Yr oedd yn wr cyhoeddus o rym a dylanwad.

Awdwr y gân ddwys i Green y Bala yw How Myfyr. Ganwyd ef, sef Hugh Jones, yn Llanfihangel Glyn Myfyr yn 1845. Daeth i'r Coleg yn 1867. Bu yn Llanrhaidr-ym-Mochnant ac yn Llanllechid, lle bu farw yn 1891. Yr oedd yn fardd melus a dwys.]

PRYDNAWN SADWRN YN Y BALA.

Cyfansoddwyd y llinellau hyn i'gan y bardd wrth groesi y Berwyn, lle y cyfarfu âg amryw o'r myfyrwyr yn imned i'w taith Sabothol.

“Mor hyfryd ar y mynyddoedd
Yw traed y rhai a chengylant dangnefedd.”

GEL yr amgylchid Salem draw,
A'r hen fynyddoedd ar bob llaw,
Felly yn awr mae'r Bala bach
Yng nghanol cylch o fryniau iach;
Hiraethog, Mignynt, Garneddwen,*
A'r Berwyn anial oer ei ben,

* Y Garneddwen yw, yn briodol, ac nid y Garnedd Wen. Croesir hi'n awr gan ffordd haearn o Lanuwchllyn i Ddrws y Nant.

Myfyrwyr y Colegau. 107

A bryniau llai yn dringo'r ne,
Fel caerau oesol gylch y lle,
I gadw yr efrydwyr clyd
Yn ddigon pell o swm y byd.
Ac yma maent yn ddygyn iawn,
Yn gweithio o foreu glas i nawn ;
Wrth ddiwyd drin yr Hic. Hæc, Hoc,
Hwy ddont yn ysgolheigion toc ;
Ac ambell un yn fawr ei fri
A urddasolir â *degee*.

Ar ol llafurio yn ddiifrêg
Trwy'r wythnos am wybodaeth deg,
Mor hyfryd ar y Sadwrn fydd
I'r bechgyn gacl eu traed yn rhydd ;
A'u gwel'd yn cychwyn yma a thraw,
Gan ymwazgaru ar bob llaw ;
A neges fawr pob un fydd dwyn
Hen ciriau yr efengyl iwyn
I glyw trigolion yr holl wlad,
Gan lwyr ddymuno eu lleshad.

Bydd weithiau ddau, neu dri, neu fwy,
A cherbyd clyd i'w cario hwy ;
Un arall geir yn dod ymlaen
Gan farchog ar gefn ceffyl plaen,
Ac ambell waith fe gwympa'r march
Gan lwyr ddarostwng gwr o barch ;
Mae'n anawdd i'r myfyriwr mwyn
Astudio pregeth a dal ffrwyn.

Un arall mwy diogel ddaw
A fflon brofedig yn ei law,
A'i ddull yn apostolaidd iawn
Yn troedio'n gynnar y prydawn.

Wynecbant oll i'r bryniau ban
 Can's bryniau welir ym mhob man ;
 Weithiau anturia ' mab y daran '
 Yn hyt i groesi cwir yr Aran ;
 Ac weithiau i lawr dros Fwlich y Groes,
 Ni welais i'r fath le'n fy oes.

Wrth deithio ar cfengylaidd hynt,
 Fel hyn a'u pennau yn y gwynt,
 Gwynt iach yr hen fynyddoedd sydd
 Y codi eu hysbrydoedd prudd,
 Ac yn eu bywioghau'n mhob man,
 Yn enwedig yr ysgyfaint gwan ;
 Fe fagai aml un o'r rhain
 Yn ddigon sicr y *decline*,
 Ond fel mae awel y mynyddau
 'N eu hadnewyddu y Sabothau.

Mor wych eu gweled ar ddydd Llun,
 A bochau cochion gan bob un,
 Yn dod yn ol yn llawn o rym,
 Am wythnos eto o lafur llym.

Y casgliad yw, mai 'nhref y Bala
 Y rhag-derfynwyd lle'r Athrofa ;
 A bod y rhai a'i mynnant ymaith
 Yn gweithio'n gwbl groes i'r arfaeth.

GLAN ALUN.

Myfyrwyr y Colegau. 109

GREEN Y BALA.

BALA, Salem wen,
Gad im dy alw,
Boed bendith ar dy ben,
Ti haeddi'r enw ;
Os bu rhyw lecyn mad
O ddacar ein hoff wlad,
Yn deml i Dduw a'r Tad,
Y Green yw hwnnw.

Ein tadau gyda hwyl,
A pher hosanna,
Fel tyrfa i gadw gwyl
A gyrechent yma ;
O na chaed eto'r fraint
O weled yn ei maint
Gymdeithas fawr y saint,
Ar Green y Bala.

Nid teml oedd hon ychwaith,
Heb un Shecinalh ;
Mor amlwg lawer gwaith
Bu gwedd Jehofah ,
Ni feiddiai un dyn byw
Mewn rhyfyg balchaf ryw
Ofyn pa le 'roedd Duw
Ar Green y Bala.

Maes lle bu arfau'r net,
Rhai nad ynt gnawdol—
Er maeddu uffern gref,
Trwy Dduw yn nerthol ;
Cythreuliaid heddyw pan
Dramwyant heibio'r fan
A gywilyddiant gan
Adgoſion ysol.

Maes cysegredig yw,
 Rhyw hynod Fethel;
 Lle bu angylion Duw
 Yn cyrchu'n ddirgel;
 Bu'n borth y nefocdd trwy
 Eu rhad wasanaeth lwy,
 Yn gweini balm i glwy'
 Pechadur isel.

Y ddeufyd ar y Green
 Ddoent i gyffyrddiad,
 Nes teimlid fod y fin
 Uwchlaw olrheiniad;
 Tebygid lawer pryd
 Fod yr ysbrydol fyd
 Yn hawlio'r maes i gyd
 Trwy oresgyniad.

Fel addfed faes o haidd,
 Ymdonnai'r dyrfa;
 Mewn duwiol nefol aidd
 Ar Green y Bala;
 Fel trwy addolgar reddf,
 Pau chwythai corwynt deddf,
 Neu'r awel dyner leddf,
 O ben Calfaria.

Wrth gofio'r amser gynt
 Ar Green y Bala;
 Yr angel ar ei hynf,
 Fan hyn orffwysa;
 Nes llwyr anghofio'i daith,
 Mewn gwledd fyfyrion faith,
 Wrth feddwl am y gwaith
 Gyflawnwyd yma.

Myfyrwyr y Colegau. 111

Pery yr enw pan
Y cyll yr Ngwalia,
Yn air teuluaid gan
Drigolion Gwynfa;
Tra cenir am y gwaed,
A'r bywyd trwyddo gaeð,
Fe gofir am a wnaed
Ar Green y Bala.

Yr adgof am a fu,
Ar Green y Bala;
Sydd gwmwl damniol du
Uwch glyn Gehenna;
Defnydda'n gawod boeth,
Ar lawer enaid noeth,
"O na fuaswn ddoeth,"
Mewn ing ddolefa!

Tydi yr hen wrandawr,
Dy hun na thwylla;
Trwy ddisgwyl pethau mawr
Na chêt hyd yma;
Nac oeda ddim yn hwy,
Ni fedd y nefoedd swy,
Na'r hyn yr aethost trwy
Ar Green y Bala.

Gall rhodio'r ddacar las
Ar Green y Bala,
Fod eto'n foddion gras
I blant Jehofah;
Pob anghrediniol i'w
Pan gofiant, giliant draw,
Flynnyddoedd deheu law
Y Duw Gorucha.

Ond heddyw dyma yw
 Y syndod mwya'—
 Cael dyn yn cablu Duw
 Ar Green y Bala ;
 Clyw adyn ief gerllaw,
 Fel liais o'r nef a ddaw,
 Yn gwaeddi—Cilia draw—
Rhy santaidd yma.

Maes a neillduodd Duw,
 O groth diddymdra,
 I godi o farw'n fyw
 Aneirif dyrfa ;
 A phan yn ulw mân,
 Troir meusydd Cymru lân,
 Yr olaf roir i'r tân
 Fydd Green y Bala.

HUW MYFYR.







